


# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2024

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Prif Arolygydd** | **1** |
| **Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad** | **3** |
| **1.1 Trosolwg** | **4** |
| **1.2 Dadansoddi perfformiad** | **8** |
| **Amcan Strategol 1**: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 8 |
| **Amcan Strategol 2**: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru | 18 |
| **Amcan Strategol 3**: Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 24 |
| **Sut y cyflawnwn ein gwaith** | 28 |
| **Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd** | **38** |
| **2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol** | **39** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 39 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 41 |
| Y datganiad llywodraethu | 42 |
| **2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff** | **49** |
| **2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio** | **60** |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn | 60 |
| **Adran 3: Datganiadau ariannol** | **65** |
| 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr | 66 |
| 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol | 67 |
| 3.3 Datganiad ar lifoedd arian | 68 |
| 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr | 69 |
| 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol | 70 |
| **Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | **80** |

## Rhagair y Prif Arolygydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn, sy'n amlinellu sut rydym wedi parhau i ddatblygu fel sefydliad ac yn darparu adroddiad ar berfformiad, adroddiad atebolrwydd a set lawn o ddatganiadau ariannol.

Eleni, rydym wedi symud ymlaen i geisio gorffen ein cylch cyfredol o weithgarwch arolygu – a fydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2024. Mae hyn wedi cynnwys cynllunio gofalus ar draws y sefydliad i sicrhau bod pob darparwr addysg yng Nghymru wedi cael o leiaf un arolygiad llawn neu weithgarwch monitro helaeth yn ystod y cylch cyfredol erbyn diwedd tymor yr haf 2024, ac rydym yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r garreg filltir hon.

Rydym hefyd wedi cymryd camau sylweddol o ran paratoi ar gyfer y cylch arolygu newydd, a fydd yn dechrau ym mis Medi 2024, gan ddatblygu ein deunyddiau arweiniad a hyfforddiant, templedi ar gyfer ein hadroddiadau arolygu yn y dyfodol a dogfennau eraill, a chynnal rhaglen lawn o ymweliadau arolygu peilot i brofi ein trefniadau newydd. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o ymarferion ymgynghori, gan asesu'r adborth a'i ystyried wrth ddatblygu ein rhaglen arolygu newydd. Cyrhaeddodd ein gweithgareddau garreg filltir ar 29 Chwefror 2024, gyda'n Cynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid, a fynychwyd gan 462 o gynrychiolwyr, a lle dilysodd yr adborth cadarnhaol dros ben ar ein trefniadau newydd ein penderfyniadau yn y maes hwn.

Ar y cyd â'n gwaith paratoi, lansiom Barod yn Barod, sef ymgyrch sy'n mynd i'r afael â rhai o'r camsyniadau yn ymwneud ag arolygiadau mewn ysgolion ac UCDau, sydd â'r nod o roi sicrwydd i ddarparwyr addysg i beidio â gorbaratoi ar gyfer arolygiadau ac addysgu fel y byddent fel arfer.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom raglen lawn o waith arolygu craidd mewn lleoliadau nas cynhelir hefyd, ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan gytuno i gadw graddau barn ar gyfer y sector hwn. Mae'r trefniadau'n effeithiol o hyd ac mae'r ddau sefydliad wrthi'n cwmpasu arolygiad o'r broses arolygu hon ar y cyd.

Parhaom â'n rhaglen o arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol gydag Archwilio Cymru ac mae ein cynnydd yn golygu y byddwn yn gallu cwblhau'r cylch cyfredol erbyn diwedd tymor yr haf. Yn nhymor y gwanwyn, cwblhaom ddau arolygiad peilot yn y sector gwaith ieuenctid statudol, hefyd.

Rydym wedi parhau i fonitro'n ffurfiol bob darparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiadau craidd hefyd, gan dynnu cyfanswm o 16 o ddarparwyr o gategorïau gweithgarwch dilynol statudol yn ystod y flwyddyn.

Mae ein hadroddiadau thematig eleni wedi cynnwys gwerthusiad o'r achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac adolygiad o'r diwylliant a'r prosesau sy'n helpu i ddiogelu a chefnogi dysgwyr 16 i 18 oed mewn colegau. Cynhaliom adolygiad o roi'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar waith yng Nghymru, hefyd. Ar ben hynny, ym mis Ionawr 2024, ymatebom yn gyflym i gais gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, gan asesu effaith pandemig COVID-19 ar lefelau presenoldeb ac amlygu'r

strategaethau a'r camau gweithredu y mae ysgolion uwchradd yn eu defnyddio i wella presenoldeb disgyblion.

Yn 2023-2024, cynhaliom raglen lawn o ddigwyddiadau ar-lein a wyneb-yn-wyneb. Ar wahân i'r Gynhadledd i Benaethiaid y cyfeiriais ati uchod, cynhaliom 31 o ddigwyddiadau, gan gynnwys 11 o ddigwyddiadau i randdeiliaid ac 20 o ddigwyddiadau hyfforddiant. Roedd 65 o randdeiliaid yn bresennol wrth i mi lansio fy adroddiad blynyddol yn y Senedd hefyd ar 31 Ionawr.

Bu ein gwaith ym maes “Belonging/Cynefin” yn arbennig o bwysig eleni. Yn ystod yr haf, cynhaliom beilot o raglen datblygu arweinyddiaeth i ymarferwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i godi eu hymwybyddiaeth o'n gwaith a'u hannog i fod yn arolygwyr cymheiriaid yn y dyfodol. Arweiniodd yr ymgyrch recriwtio yn llwyddiannus at 18 o ymgeiswyr. Dewiswyd pedwar ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach, a rhoddwyd dau ar lwybr carlam i gael hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid. Eleni, rydym hefyd wedi dechrau Cymuned Rhieni a Gofalwyr newydd i ddisodli'r grŵp cyfeirio blaenorol i rieni, gyda'r nod o gasglu adborth a mewnbwn gan rieni a gofalwyr ledled Cymru.

Adlewyrchwyd pwysigrwydd “Belonging/Cynefin” yn ein cynadleddau staff hefyd, gydag un o'n cynadleddau'n cynnwys cyfres o gyflwyniadau a thrafodaethau ar ein cynllun cydraddoldeb strategol. Roedd ein cynhadledd arall i'r holl staff, yn dwyn y teitl “Creu Atgofion”, yn canolbwyntio ar brofiadau newydd a lles staff – ac rydym wedi parhau i archwilio ffyrdd ychwanegol eleni i ddod â'n staff at ei gilydd trwy hyfforddiant ar y cyd a thrwy i staff y Gwasanaethau Canolog fod yn bresennol mewn arolygiadau.

Gyda'r momentwm yn cynyddu ym mhob un o'r meysydd hyn ac yn enwedig wrth i ni nesáu at ddiwedd un cylch arolygu a dechrau un newydd, gyda threfniadau newydd wedi'u profi ac yn barod i'w rhoi ar waith yn llawn o fis Medi 2024, bu'n flwyddyn brysur, weithgar a chynhyrchiol arall i bob un ohonom. Hoffwn felly ddiolch i bawb sy'n gweithio i Estyn am y ffordd y maent wedi gweithio i gefnogi cyflawni ein holl amcanion drwy gydol y flwyddyn.

**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 17 Medi 2024.

# ADRAN 1
## YR ADRODDIAD PERFFORMIAD



## 1.1 Trosolwg

## Ein diben

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cefnogi rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru. Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

## Ein gweithgareddau

### Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

### Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

### Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith

Ceir manylion am ein rolau arolygwyr ar ein gwefan ynghyd â'n strwythur sefydliadol.

## Crynodeb o'n perfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol, sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol am y flwyddyn sy'n cefnogi cyflawni ein cenhadaeth, ein hamcanion ac yn adlewyrchu sut y cyflawnwn ein gwaith.

Roedd ein Cynllun Blynyddol 2023-2024 yn cydnabod ein bod yn symud tuag at ddiwedd ein cylch cyfredol o arolygiadau. Felly, mae ein gwaith wedi ymwneud yn bennaf â pharatoi ar gyfer y cylch newydd o arolygiadau, a fydd yn dechrau yn nhymor yr hydref 2024, sef:

- Ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol am yr ymagweddau gorau i'w defnyddio wrth arolygu
- Datblygu arweiniad arolygu newydd drafft a deunyddiau hyfforddiant
- Rhoi rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar waith ar gyfer staff Estyn ar y trefniadau newydd
- Cynnal cyfres o arolygiadau peilot ar draws nifer o ddarparwyr yng Nghymru, i brofi a mireinio ein hymagwedd a'n trefniadau

Caiff cyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad ei fonitro'n rheolaidd gan Fwrdd Strategaeth Estyn.

Cynhyrchwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-2023 o fewn y graddfeydd amser statudol ac ni chafodd cyfrifon adnoddau blynyddol Estyn eu hamodi gan archwilwyr allanol.

Yn 2023-2024, cyflawnom ein lefel perfformiad ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r mesur dangosyddion isod yn nodi ein lefel perfformiad trwy gydol yr adroddiad.




# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r Ddeddf yn amlinellu diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i ni (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), parhawn i chwarae ein rhan i gyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer pobl Cymru.

## Roedd digwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys

**Haf 2023**

Cynhaliom raglen lawn o arolygiadau ar draws y sectorau addysg, gan gynnwys 83 o ysgolion, 20 o ddarparwyr meithrin nas cynhelir, dau awdurdod lleol a phedwar o ddarparwyr ôl-16.

Cyhoeddom Arolygu ar gyfer y Dyfodol 2024-2030 yn ffurfiol, gan roi rhybudd o'n bwriad i symud i arolygiadau mwy cynnil, ffocysedig a fyddai'n hylaw i bob darparwr ac yn ategu eu prosesau gwerthuso a gwella eu hunain.

Parhaom ag ymweliadau monitro ag ysgolion ac UCDau mewn categorïau gweithgarwch statudol.

Cyhoeddom ein hadroddiad, Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed, gan amlygu bod yr ysgolion gorau'n addysgu strategaethau sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei ddarllen a datblygu medrau siarad a gwrando.

Lansiom ein hadroddiad thematig ar lywodraethwyr ysgol, gan gynghori bod angen rhagor o gymorth ar y rhan fwyaf o lywodraethwyr i'w helpu i weithredu fel "cyfeillion beirniadol" effeithiol.

Cyhoeddom adroddiad thematig arall ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed, yn ogystal ag un ar degwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.

Lansiom raglen ddatblygu i helpu i leihau'r rhwystrau rhag dilyniant i weithwyr proffesiynol addysg o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.

Cynhaliom gynhadledd staff yn yr haf o'r enw "Creu Atgofion", a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau newydd a lles staff.

**Hydref 2023**

Cynhaliom raglen arolygu lawn, gan gynnwys 117 o ysgolion, 31 o feithrinfeydd nas cynhelir a saith o ddarparwyr ôl-16. Roedd hyn yn cynnwys peilota ein trefniadau arolygu newydd mewn nifer fach o ysgolion.

Cyhoeddom ganfyddiadau cryno interim ein Hadroddiad Blynyddol 2022-2023.

Parhaom â'n paratoadau ar gyfer Arolygu ar gyfer y Dyfodol trwy ymgynghori ar ein newidiadau arfaethedig yn y sectorau ôl-16, gwasanaethau addysg llywodraeth leol a Chymraeg i Oedolion.

Dechreuom Gymuned Rhieni a Gofalwyr newydd i ddisodli'r grŵp cyfeirio rhieni blaenorol, gyda'r nod o gasglu adborth a mewnbwn gan rieni a gofalwyr ledled Cymru.

Cyhoeddom adroddiad yn edrych ar gyflwyno diwygiadau Llywodraeth Cymru o anghenion dysgu ychwanegol fesul cam, gan archwilio pa mor dda y mae'r ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad yn rhoi agweddau allweddol ar y system newydd ar waith a'r cymorth a roddir gan awdurdodau lleol.

**Gwanwyn 2024**

Cyhoeddom Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EF ar gyfer 2022-2023.

Parhaom â rhaglen lawn o weithgarwch arolygu, gan gynnwys 118 o ysgolion, 29 o feithrinfeydd nas cynhelir, un awdurdod lleol a phump o ddarparwyr ôl-16. Roedd hyn yn cynnwys parhau i beilota ein prosesau arolygu newydd mewn nifer o ddarparwyr a wirfoddolodd.

Ailddechreuom ein gwaith arolygu o wasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

Ar sail canfyddiadau ein hymgynghoriadau a pheilota ein trefniadau arolygu newydd, fe wnaethom grynhoi a diweddaru ein dogfennau arweiniad "Beth rydym yn ei arolygu" a "Sut rydym yn arolygu" ar gyfer sectorau addysg amrywiol, a'u cyhoeddi ar ein gwefan.

Paratoesom ddogfennaeth i'n galluogi i ddechrau arolygu darpariaeth trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol gwahanol.

Cyhoeddom adroddiad thematig ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd, gan ddangos bod hyn wedi dirywio ers pandemig COVID-19 ac yn amlygu lle mae ysgolion yn ymateb i'r her hon ac yn rhoi mesurau ar waith i gynyddu presenoldeb.

Lansiom Barod yn Barod, sef ymgyrch sy'n mynd i'r afael â rhai o'r camsyniadau yn ymwneud ag arolygiadau mewn ysgolion ac UCDau, sydd â'r nod o roi sicrwydd i ddarparwyr addysg i beidio â gorbaratoi ar gyfer arolygiadau ac addysgu fel y byddent fel arfer.

Cynhaliom Gynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid yn Stadiwm Dinas Caerdydd, a fynychwyd gan 462 o gynrychiolwyr, a alluogodd i ni archwilio ein trefniadau arolygu newydd o fis Medi ymlaen a rhannu arfer effeithiol o ysgolion ac UCDau ledled Cymru.

Cynhaliom ein cynhadledd staff ar y pwnc "Belonging/Cynefin", gyda chyflwyniadau a thrafodaethau am ein cynllun cydraddoldeb strategol.

## 1.2 Dadansoddi perfformiad

## Perfformiad yn erbyn amcanion strategol

### Amcan Strategol 1:

Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Tabl 1: Arolygiadau craidd Estyn yn ôl sector 2023-2024**

| Sector | Nifer yn 2023-2024 | Nifer yn 2022-2023 |
|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir* | 90 | 93 |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir | 254 | 219 |
| Ysgolion uwchradd | 30 | 29 |
| Ysgolion pob oed | 6 | 7 |
| Ysgolion arbennig | 8 | 7 |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 3 | 4 |
| Ysgolion Annibynnol (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol) | 14 | 12 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 3 | 3 |
| Addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 1 | 2 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol | 4 | 5 |
| Sefydliadau addysg bellach | 0 | 2 |
| Dysgu yn y gwaith / prentisiaethau | 4 | 2 |
| Dysgu Oedolion (DO) | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Ieuenctid (GI) | 2 | Dd/b |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) | 3 | 2 |
| **Cyfanswm nifer yr arolygiadau** | **426** | **391** |

* Arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (Pob ffigur – y flwyddyn ariannol)

## Trosolwg o arolygu 2023-2024

### Arolygu ar gyfer y Dyfodol – 2024-2030

Trwy gydol y flwyddyn, parhaom â'n gwaith paratoi ar gyfer cylch arolygu newydd 2024. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cynnig ar ymagweddau newydd mewn ychydig o arolygiadau ysgol yn ystod haf 2023, gan wneud addasiadau i'n fframwaith ar ôl trafodaethau ar draws y sector cyfan. Yna, fe wnaethom beilota methodolegau newydd yn ystod hydref 2023 ar gyfer arolygiadau craidd, er enghraifft archwilio ffyrdd gwahanol o gasglu tystiolaeth a ffyrdd gwahanol o adrodd. Cynhaliom ymgynghoriad ffurfiol ar ein cynlluniau, hefyd.

Cafodd ein AEF, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg hyfforddiant ychwanegol cyn yr arolygiadau peilot er mwyn sicrhau eu bod yn deall y methodolegau newydd a'r trefniadau ysgrifennu/adrodd.

Ymwelodd aelodau o'n huwch grŵp arweinyddiaeth ag arolygiadau peilot i gasglu adborth ar effeithiolrwydd y trefniadau newydd, gan asesu goblygiadau'r ôl troed arolygu llai a'r gostyngiad ym maint y tîm ar gyfer arolygiadau o ysgolion pob oed ac ysgolion uwchradd.

Yna, cysylltodd Cyfarwyddwyr Cynorthwyol â'r darparwyr ar ôl yr arolygiadau peilot i gasglu rhagor o adborth o safbwynt y darparwyr.

Cynhaliwyd gwerthusiadau o'r arolygiadau peilot a'r trefniadau adrodd newydd ym mis Rhagfyr 2023 a mireiniwyd ein harweiniad ymhellach; yna, yng ngwanwyn 2024, cynhaliom gyfres o arolygiadau peilot pellach ym mhob sector ysgol. Coladwyd adborth wyneb-yn-wyneb – trwy ymweliadau arolygu, holiaduron, rhwydweithiau sector a grwpiau rhanddeiliaid.

Ystyriwyd yr holl adborth ac roeddem yn gallu cymeradwyo fersiynau terfynol 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau ym mis Mawrth 2024.

Eleni, rydym hefyd wedi cynnal treialon ar gyfer ein hymweliadau arolygu interim arfaethedig.

Yn rhan o gyfathrebu ein rhaglen arolygu newydd, yn y gwanwyn fe lansiom "Barod yn Barod", sef ymgyrch sy'n mynd i'r afael â rhai o'r camsyniadau ynghylch arolygiadau mewn ysgolion ac UCDau, sydd â'r nod o roi sicrwydd i ddarparwyr addysg i beidio â gorbaratoi ar gyfer arolygiadau ac i addysgu fel y byddent fel arfer. Dilynwyd hyn ar 29 Chwefror gan ein cynhadledd genedlaethol i benaethiaid, lle cawsom adborth cadarnhaol ar ein hymgyrch a'n hymweliadau arolygu peilot.

### Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Yn ystod y flwyddyn hon, cynyddom nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd i'r lefelau cyn y pandemig, gan gynnal rhaglen lawn o arolygiadau ym mhob un o'r tri thymor. Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliom rai arolygiadau peilot cychwynnol o ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn barod ar gyfer ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer 2024, gyda nifer gynyddol o arolygiadau peilot yng ngwanwyn 2024. Ar ôl hynny, gwerthusom yr arolygiadau peilot hyn, gan wneud

rhagor o ddiweddariadau i'n dogfennau arweiniad arolygu newydd ar gyfer cylch 2024-2030, Beth rydym yn ei arolygu a Sut rydym yn arolygu.

Sicrhaom ein bod yn parhau ar amser i fodloni ein bwriadau yn y cynllun blynyddol – defnyddiwyd gwybodaeth gan awdurdodau lleol am ysgolion ac UCDau nas arolygwyd yn ystod y cylch cyfredol i groesgyfeirio'r amserlen er mwyn sicrhau bod ein cylch wedi'i gwblhau erbyn diwedd haf 2024.

Parhaom i fonitro ysgolion mewn categorïau statudol a mynychu nifer o gyfarfodydd gwella amlasiantaeth i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder.

**Lleoliadau meithrin nas cynhelir**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom raglen lawn o waith arolygu craidd mewn lleoliadau nas cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Oherwydd ein partneriaeth ag AGC ar y gwaith hwn, rydym wedi cadw graddau barn ar gyfer y sector hwn. Mae'r trefniadau'n effeithiol o hyd ac mae'r ddau sefydliad wrthi'n cwmpasu adolygiad o'r broses arolygu hon ar y cyd.

Mae gwaith i'w wneud o ran amserlennu a chynllunio i sicrhau ein bod yn cadw at amserlenni ac yn lleihau dyblygu gwybodaeth. Bydd yr adolygiadau o arolygiadau ar y cyd yn arwain at adroddiad yn ystod haf 2024. Yna, byddwn yn trafod amserlen ar gyfer gwelliannau ag AGC yn sgil unrhyw argymhellion.

**Gwasanaethau addysg llywodraeth leol**

Parhaom hefyd â'n rhaglen o arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol (gydag Archwilio Cymru). Roedd hyn yn cynnwys pedwar arolygiad craidd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â dau arall i'w cynnal yn ystod haf 2024, gan ein galluogi i gwblhau'r cylch cyfredol. Yn nhymor y gwanwyn, cwblhaom arolygiad peilot o waith ieuenctid statudol ym Mro Morgannwg hefyd, ynghyd ag arolygiad o waith ieuenctid gwirfoddol o Glybiau Bechgyn a Merched Cymru.

Mae pob adroddiad arolygu GALlL yn cynnwys sylwebaeth a gwerthusiad o ansawdd y cymorth a ddarperir gan y gwasanaethau gwella ysgolion trwy ein cwestiynau arolygu lleol. Mae trafodaethau ag Archwilio Cymru ynghylch natur eu cyfraniad yn ystod cylch 2024 yn mynd rhagddynt.

**Sectorau ôl-16**

Rydym wedi parhau â rhaglen lawn o waith arolygu yn y sectorau ôl-16 eleni, gan gynnwys pedwar darparwr dysgu yn y gwaith / prentisiaethau a phedwar darparwr dysgu oedolion yn y gymuned.

Yn ystod tymor yr haf, cwblhaom ein hymweliadau monitro â rhaglen Twf Swyddi Cymru+ o ddarparwyr dysgu yn y gwaith a chyflwyno adroddiad cenedlaethol ar flwyddyn gyntaf y rhaglen.

Yn ystod y flwyddyn hon, ymwelom â cholegau arbenigol annibynnol hefyd i ystyried ceisiadau cofrestru a cheisiadau am newidiadau perthnasol.

## Addysg Gychwynnol Athrawon

Parhaom i gyflwyno arolygiadau o addysg gychwynnol athrawon yn dilyn arolygiad peilot cynharach yn 2021-2022. Wrth wneud hynny, parhaom i gydweithio'n agos â Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a'r Bwrdd Ymgynghorol Addysg Dechnegol (TEAB). Oherwydd bod angen gweithgarwch dilynol ar ddwy bartneriaeth a arolygwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cydweithiom yn agos i gynllunio ac ymgymryd â'n gwaith dilynol gan fod hyn yn cyd-daro â'r broses ailachredu.

## Cymraeg i Oedolion

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom dri arolygiad craidd yn y sector Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys arolygiad hydredol o'r ganolfan breswyl genedlaethol (Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn) yn ystod haf a hydref 2023.

## Ysgolion annibynnol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom raglen lawn o arolygiadau o ysgolion annibynnol, gyda chyfanswm o 14 o arolygiadau craidd hyd at 31 Mawrth 2024.

Ymwelom ag ysgolion annibynnol hefyd i ystyried ceisiadau cofrestru a cheisiadau am newidiadau perthnasol – cyflawnwyd cyfanswm o 11 (o gymharu â 9 y llynedd) o geisiadau cofrestru yn ystod y flwyddyn a 57 (o gymharu â 36 y llynedd) o geisiadau am newidiadau perthnasol. Mae'r cynnydd sylweddol hwn mewn ceisiadau am newidiadau perthnasol o ganlyniad i gofrestru ysgolion annibynnol sy'n dymuno cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol. Parhaom â'n hymweliadau monitro blynyddol â phob ysgol annibynnol sy'n cynnig darpariaeth ADY hefyd, gan ymweld â 18 o ddarparwyr yn ystod y flwyddyn (cyfanswm o 20 o ymweliadau).

## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yn ystod 2023-2024, cynhaliom ddau arolygiad ar y cyd, gan gydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF: sef carchar i oedolion a sefydliad troseddwyr ifanc. Cynhaliom un arolygiad ar y cyd o wasanaethau troseddwyr ifanc hefyd ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf EF ac un arolygiad o gartref plant diogelu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Ymatebom i ymgynghoriad statudol ar raglen arolygu ddrafft a fframwaith arolygu Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer 2024-2025. Eleni, cynhaliom ymweliadau cyswllt anffurfiol â'r rhan fwyaf o garchardai i oedolion yng Nghymru na chawsant eu harolygu. Mae arweinydd y sector yn cyfarfod â rheolwr ardal Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer Cymru bob chwe wythnos i rannu datblygiadau parhaus, er enghraifft ar faterion yn ymwneud ag amseriad arolygiadau, gwaith thematig a diwygio fframwaith y sector cyfiawnder. Mae'r ymgysylltu rheolaidd hwn wedi sicrhau perthynas adeiladol.

Rydym wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Arolygu Cyfiawnder Ieuenctid trwy gydol y flwyddyn, a gadeiriwyd gan Arolygiaeth Prawf EF, sy'n cynnwys pob un o'i harolygiaethau partner, i drafod trefniadau arolygu, heriau cyfredol ym maes cyfiawnder ieuenctid ac i rannu gwybodaeth am ddarparwyr. Aethom i drafodaethau bord gron a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Prawf EF ar ei threfniadau arolygu newydd

arfaethedig, sy’n cyflwyno meysydd newydd a diwedd arolygiadau ar y cyd o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Rydym wedi cyfarfod ag Arolygiaeth Prawf EF ar wahân ar sawl achlysur i drafod sut gallwn barhau i gefnogi ei gwaith arolygu trwy rannu gwybodaeth. Rydym wedi dechrau ymgysylltu’n agosach â’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru i sefydlu sut y gall rannu gwybodaeth â ni i sicrhau nad oes unrhyw fylchau ar ôl o ran goruchwylio darpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr sy’n destun ymyriadau cyfiawnder ieuenctid a adawyd yn sgil diwedd yr arolygiadau ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF.

Rydym yn parhau i feithrin gallu yn y sector hwn trwy gynnwys cydweithwyr o sectorau eraill mewn timau arolygu. Rydym hefyd wedi cynnal dau gyfarfod rhwydwaith sector yn ystod wythnosau dysgu proffesiynol i rannu datblygiadau yn y sector cyfiawnder a chanolbwyntio ar ymgynghori â’r rhwydwaith ar ddatblygu fframwaith newydd y sector cyfiawnder.

**Diogelu**

Yn ein holl waith arolygu, parhaom i fod yn wyliadwrus a gwerthuso pa mor dda y mae darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sy’n diogelu plant a, lle y bo’n briodol, oedolion bregus.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliom ddau ymweliad â ffocws i fynd i’r afael â phryderon yn ymwneud â diogelu.

Parhaom i gydweithio ag arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i gynnal adolygiad ar y cyd gan arolygiaethau o drefniadau amddiffyn plant (JICPA) a ddarperir gan awdurdodau lleol a phartneriaid. Eleni, roedd hyn yn golygu adolygu trefniadau mewn pedwar awdurdod lleol.

Rydym wedi parhau i arolygu cartrefi plant diogel gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Gweithgarwch dilynol

Parhaom i fonitro'n ffurfiol bob un o'r darparwyr yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiadau craidd. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y darparwyr a roddwyd mewn categorïau gweithgarwch statudol ac a dynnwyd ohonynt yn ystod 2023-2024.

| Nifer y darparwyr a roddwyd mewn categorïau gweithgarwch dilynol ac a dynnwyd ohonynt ym mlwyddyn ariannol 2023-2024[1] | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel y gweithgarwch dilynol | Sector | Mewn categori gweithgarwch dilynol ar ddechrau'r flwyddyn | Rhoddwyd mewn categori ar ôl arolygiad craidd yn ystod y flwyddyn | Wedi israddio lefel y gweithgarwch dilynol | Tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn | Mewn categori gweithgarwch dilynol ar ddiwedd y flwyddyn |
| Statudol ac uwch (mesurau arbennig / gwelliant sylweddol), gwelliant â ffocws ac ail-arolygu | Ysgolion a gynhelir ac UCDau | 35 | 17 | 1 GS i MA | 10 | 42 |
| | Meithrinfeydd nas cynhelir | 4 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| | GALIL | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| | Ôl-16 | 3 | 3 | 0 | 2 | 4 |
| Adolygu gan Estyn / monitro gan Estyn / adolygu cynnydd / Awdurdod lleol sy'n peri pryder difrifol | Ysgolion a gynhelir ac UCDau | 41 | 27 | 0 | 26 | 42 |
| | Meithrinfeydd nas cynhelir | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | GALIL | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Ôl-16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar ddata sydd wedi'i storio yn ein system yn hytrach na dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

- Mae un darparwr AGA dan 'Ymgysylltu Manylach ag Estyn' ar 22/09/2023 ond nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau yn y tabl uchod.
- Mae wyth o ddarparwyr meithrin nas cynhelir bellach wedi cau neu nid ydynt yn cael cyllid mwyach, felly nid ydynt yn ymddangos mewn categori gweithgarwch statudol ar ddiwedd y flwyddyn.

Tynnwyd 42 o ddarparwyr o gategorïau gweithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn.

Pan gaiff darparwr ei roi mewn categori monitro statudol, mae'n ofyniad statudol i'r corff llywodraethol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) a'r awdurdod lleol ysgrifennu datganiad gweithredu yn syth ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mae arolygwyr yn cyfarfod â'r darparwr a'r awdurdod lleol i sicrhau bod y cynlluniau'n debygol o arwain at y gwelliannau gofynnol, cyn i'r cynlluniau gael eu hanfon at Lywodraeth Cymru. Rydym yn galw'r ymweliadau hyn yn ymweliadau CGOA.

Wedi i'r cynlluniau gael eu derbyn, rydym yn monitro cynnydd y darparwyr hyn. Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau yn y categori mesurau arbennig, caiff yr ymweliadau monitro hyn eu cynnal bob pedwar i chwe mis. Yn ymarferol, mae hyn bob tymor, fel arfer. Ar gyfer darparwyr sy'n cael eu rhoi yn y categori gwelliant sylweddol, rydym yn dychwelyd i fonitro cynnydd tua 12 i 18 mis ar ôl yr arolygiad craidd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i ariannu'r rhaglen amlasiantaeth ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n peri pryder, rydym wedi parhau â'n hymglymiad, gydag AEF bugeiliol penodol wedi'u neilltuo i bob ysgol uwchradd a phob oed mewn categori gweithgarwch dilynol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r rhaglen wedi parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd – mae AEF wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn ac wedi cyfrannu at drafodaethau, gan gynnig her, cymorth ac adborth priodol.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, buom yn cydweithio'n agos ag un ALI sy'n peri pryder sylweddol ac rydym wedi parhau ac ymweliadau monitro bob tymor i werthuso cynnydd a chefnogi gwelliant. Yn rhan o brofi trefniadau newydd, cynhaliom ymweliad ACALl manylach ag awdurdod arall, hefyd.

O ran ein mesurau perfformiad:

Nid oedd angen diwygio unrhyw un o'n hadroddiadau arolygu'n sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd ar ôl ei gyhoeddi o ganlyniad i her, a chyhoeddwyd pob un ohonynt mewn modd amserol.



Mae 99.5% o ddarparwyr yn mynegi boddhad â dibynadwyedd ac annibyniaeth canfyddiadau arolygu.

**Adborth**

Cafwyd un gŵyn ffurfiol am y broses arolygu yn ystod 2023-2024. Cafodd rhai agweddau eu cadarnhau'n rhannol.

Cafwyd ail gŵyn am ail ymweliad cofrestru ag ysgol arbennig annibynnol Cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n rhannol.

Dyma ddetholiad o'r sylwadau rydym wedi'u cael am ein gweithgarwch arolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Gall diwrnodau arolygu achosi ychydig o straen i ddarparwyr a gall y tîm fod yn bryderus ar hyd y broses. Mae pawb eisiau gwneud y gorau y gallent yn ystod arolygiad ac roeddem yn teimlo ein bod yn gallu arddangos popeth rydym yn ei wneud o ddydd i ddydd yn gyfforddus. Roedd y ddau arolygydd yn broffesiynol ac yn ystyriol drwy'r amser a gwnaed i'r staff deimlo'n gartrefol.

Roeddwn yn teimlo bod y broses yn deg a rhoddwyd digon o gyfleoedd i mi rannu beth rydym yn ei wneud a pham rydym yn gwneud hynny. Roedd y plant hefyd yn hapus i gael yr ymwelwyr cyfeillgar yn y lleoliad ar y ddau ddiwrnod.

Perchennog, meithrinfa nas cynhelir

Gall wythnosau arolygiadau fod yn brofiad sy'n achosi pwysau a straen, ond roedd y tîm a ddewiswyd yr wythnos ddiwethaf yn glod i Estyn. Mae'r modd maent yn ymgymryd â'i busnes yn rhagorol ac fe wnaethant gofleidio ethos a diwylliant yr ysgol yn llawn – roedd yn teimlo fel eu bod yn rhan wirioneddol o'r tîm staff. Yr adborth gan staff oedd nad oeddent erioed wedi bod mor dawel eu meddwl yn ystod arolygiad, a roddodd gyfle iddynt ddisgleirio heb deimlo dan ormod o bwysau. Cynhaliwyd natur y sgyrsiau proffesiynol mewn cyfarfodydd ac â sesiynau adborth unigol â'r uniondeb mwyaf. Roedd arweinyddiaeth yr Arolygydd Cofnodol, a osododd naws yr wythnos, yn rhagorol. A minnau'n enwebai, roeddwn yn teimlo bod fy nghyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi a'u clywed.

Pennaeth ysgol uwchradd

Hoffwn gyfleu fy niolch i holl arolygwyr a staff Estyn a fu'n rhan o'r arolygiad craidd ym mis Medi 2022 a'n cyfnod dilynol yn y categori mesurau arbennig a'r ymweliadau cysylltiedig. Roedd pob arolygydd yn gefnogol iawn a rhoesant fewnwelediad defnyddiol dros ben i'r ffyrdd ymlaen ar gyfer yr ysgol. Rwy'n siŵr fod Estyn yn cael ei gyfran deg o ohebiaeth negyddol, felly ro'n i'n meddwl y byddwn yn rhoi o'm hamser i ddweud pa mor werthfawr y bu'r profiad cyfan i mi.

Pennaeth ysgol gynradd

> Dim ond nodyn o ddiolch personol am y ffordd hynod broffesiynol y gwnaethoch chi a'ch tîm gynnal yr arolygiad. Rwy'n hyderus y bydd eich canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn help mawr o ran symud pethau ymlaen.
>
> Arweinydd, darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon

> Hoffwn ddweud diolch enfawr i chi a'r tîm. Rwyf wir yn gwerthfawrogi faint y gwnaethoch chi i gyd ddangos eich bod yn poeni amdanaf i a thîm yr ysgol. Rwyf wir wedi clywed rhai sylwadau hyfryd. ...Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ystyried yr holl adborth a roddwyd i ni ac wedi ymrwymo'n llwyr i gydymffurfio ym mhob maes. Er fy mod wedi gweld y broses yn ddwys ar adegau, rwyf wedi'i chael yn fewnweledol iawn ac rwy'n teimlo fy mod eisoes yn gwybod cymaint yn fwy nag oeddwn ar ddechrau'r wythnos.
>
> Pennaeth, ysgol arbennig annibynnol

**Gwaith partneriaeth**

Bob blwyddyn, rydym yn rhannu arfer ac yn gweithio ar y cyd ag ystod o sefydliadau'r llywodraeth, arolygiaethau a chyrff eraill y tu mewn a'r tu allan i Gymru i ddatblygu ein golwg ar systemau addysg ac arfer arolygu ar draws y Deyrnas Unedig a'r byd. Mae gwaith tebyg ar y cyd yn datblygu ein hymagweddau ein hunain at arolygu a gwaith thematig, yn cefnogi ein cyngor i Lywodraeth Cymru ac yn helpu i roi polisi'r llywodraeth ar waith.

Rydym wedi parhau i gydweithio ag arolygiaethau addysg a hyfforddiant o wledydd cyfagos, ar lefel strategol a gweithredol, gan rannu gwybodaeth a dealltwriaeth yn rheolaidd. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i gyfnewid diweddariadau a rhannu arfer ar lefel y Prif Arolygydd a rheolwyr, gan gynnwys cysylltiadau penodol AEF/CC. Ystyriwyd arfer mewn gwledydd cyfagos yn gyson er mwyn helpu i lywio gwelliannau, er enghraifft wrth ddiweddaru ein gweithdrefn gwyno neu ystyried cymorth i arolygwyr wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Yn ystod 2023-2024, cyfarfu Penaethiaid yr Arolygiaethau unwaith yn rhithwir ac unwaith wyneb-yn-wyneb i oruchwylio rhaglen waith ar y cyd a rhannu ymatebion i heriau cyfredol. Maent yn parhau i gael eu cefnogi gan grŵp cydlynu strategol ac mae pob sefydliad yn cefnogi â chymorth ysgrifenyddiaeth.

Mae ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol yn cyfarfod â'u cydweithwyr yn Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ddwywaith y flwyddyn i rannu gwybodaeth am waith awdurdodau lleol a gwaith rhanbarthol. Diben y cyfarfodydd hyn yw rhannu ein barn barhaus am y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws y 22 awdurdod lleol.

Yn ystod tymor yr hydref 2023 a thymor y gwanwyn 2024, comisiynodd AGC ac Estyn Y Bartneriaeth Ddysgu i gynnal adolygiad llawn o arolygiadau ar y cyd. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried safbwyntiau ystod o randdeiliaid gan gynnwys arolygwyr, arweinwyr lleoliadau, rhieni, awdurdodau lleol, sefydliadau cymorth

ambarél a chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru. Ymgysylltodd yr adolygwyr â rhanddeiliaid trwy gyfres o holiaduron a grwpiau ffocws. Caiff yr adroddiad drafft ei dderbyn ym mis Ebrill 2024, pan fyddwn yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn AGC i benderfynu ar ffordd ymlaen a sut byddwn yn ymateb i'r argymhellion.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â gweithgareddau'r Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog ar Arolygiaethau (SICI), sydd â 37 o aelodau ledled Ewrop a'r tu hwnt, er mwyn sicrhau ein bod yn elwa ar y gallu i ddysgu oddi wrth arolygiaethau eraill a'u prosesau. Yn 2023 i 2024, mynychom sawl gweithdy a digwyddiad partneriaeth SICI, lle y rhannwyd arfer ac ymagweddau at y canlynol:

- cyfarfodydd rhwydwaith ar-lein rheolaidd
- ymateb i geisiadau am wybodaeth gan arolygiaethau eraill, er enghraifft i ddarparu gwybodaeth am atebolrwydd yn y dirwedd ôl-16 ar gyfer Menter Diwygio Addysg De-ddwyrain Ewrop
- cefnogi'r trosglwyddo'r prosiect TESSIE i bartneriaid newydd
- mynychu gweithdai ar Degwch ac ymchwil yn ystod y flwyddyn, fel Ffrainc (ar-lein) a Lwcsembwrg a Llundain (wyneb-yn-wyneb)

Mae ein trafodaethau rheolaidd ag arolygiaethau ar draws y DU ac Iwerddon yn parhau i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i rannu syniadau a phrofi datblygiadau mewn amgylcheddau sy'n debyg i'n hamgylchedd ni. Mae cyfnewid a chydweithio fel hyn yn rhan o'n hymrwymiad i gydweithio â'n cymheiriaid. Yn ogystal â rhannu profiadau cyffredin ac archwilio cyffelybiaethau a gwahaniaethau, mae'r cyfnewidiadau hyn wedi helpu i lywio datblygiadau'r dyfodol mewn polisi ac arfer. Maent yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol arolygwyr ac arfer arolygu yn awdurdodaethau cartref yr arolygwyr. Yn y modd hwn, maent yn chwarae rôl bwysig mewn gwella deilliannau addysgol i ddysgwyr.

# Amcan Strategol 2:

## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Ar 12 Hydref, cyhoeddom ein hadroddiad blynyddol interim ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a oedd yn cynnwys crynodebau sector ar gyfer y ddau ar bymtheg o sectorau rydym yn eu harolygu. Roedd y rhain yn cynnwys pwyntiau bwled i amlinellu beth oedd yn mynd yn dda a beth sydd angen ei wella ym mhob sector. Trefnodd y rhan fwyaf o sectorau eu crynodebau yn dair adran, sef: addysgu a dysgu; gofal, cymorth a lles; ac arwain a gwella. Dewisom y penawdau hyn yn fwriadol er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau rhwng addysgu a dysgu a rhwng gofal, cymorth ac arweiniad a lles yn fwy amlwg. Ar ben hynny, eleni roedd pob crynodeb sector yn cynnwys trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau.

Yna, ym mis Ionawr 2024, cyhoeddom Adroddiad Blynyddol PAEF 2022-2023 ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ogystal â rhoi diweddariadau ar y ddau ar bymtheg o sectorau rydym yn eu harolygu, roedd hwn yn cynnwys adrannau ar y themâu allweddol canlynol:

- Profiadau addysg a hyfforddiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Y Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant
- Canlyniadau PISA 2022
- Lliniaru effeithiau tlodi a difreintedd ar gyrhaeddiad addysgol
- Presenoldeb ac agweddau at ddysgu
- Gweithredu Cwricwlwm i Gymru
- Cynnydd darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol

Wrth lansio'r Adroddiad Blynyddol, gwnaeth y Prif Arolygydd y sylw canlynol:

> Mae ymrwymiad cryf addysgwyr ledled Cymru yn destun balchder, ond mae'n amlwg bod cysgod y pandemig yn effeithio ar les dysgwyr a'r cynnydd a wnânt o hyd. Mae agweddau gwannach ar arfer yn atal gormod o ddysgwyr rhag gwneud cynnydd ac mae angen i hunanwerthuso mewn ysgolion a darparwyr eraill wella i gryfhau'r system.
>
> Mae addysgwyr ledled Cymru yn parhau i weithio'n ddiwyd ac ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chefnogi ein plant, a dysgwyr o bob oed, i ddysgu a ffynnu. Mae fy adroddiad yn amlygu'r llwyddiannau ac yn amlinellu rhai o'r heriau y mae addysg a hyfforddiant yn eu hwynebu o hyd; rwy'n gobeithio y bydd yn sbarduno myfyrdod a thrafodaeth adeiladol am sut gallwn ni wella ar y cyd.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol PAEF ym mis Ionawr 2024, yn unol â'r dyddiad targed yn ein Cynllun Blynyddol 2023-2024.



Cafodd yr holl argymhellion ar gyfer gwella mewn adroddiadau thematig eu derbyn ar gyfer eu gweithredu / rhoi sylwadau arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Yn ystod 2023-2024, cyhoeddom wyth adroddiad thematig ar ystod o bynciau i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys cyfanswm o 71 o argymhellion, 22 ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru. Cafodd yr holl argymhellion ar gyfer gwella eu derbyn neu rhoddwyd sylwadau arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

**Adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn 2023-2024**

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed | Mai 2023 |
| Llywodraethwyr Ysgol - Gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac effaith hyfforddiant i lywodraethwyr | Mai 2023 |
| Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr 16-18 oed mewn colegau addysg bellach ledled Cymru | Mehefin 2023 |
| Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) | Medi 2023 |
| Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon | Medi 2023 |
| Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd | Medi 2023 |
| Rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+: Mewnwelediadau hydref 2023 | Hydref 2023 |
| Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth | Tachwedd 2023 |
| Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd | Ionawr 2024 |

**Adroddiadau ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2023-2024**

Yn ogystal â’r adroddiadau thematig uchod, roeddem yn rhan o adolygiad cyflym amlasiantaeth dan arweiniad Arolygiaeth Gofal Cymru o wneud penderfyniadau yn ymwneud ag amddiffyn plant. Nod yr adolygiad hwn oedd penderfynu i ba raddau y mae’r strwythurau a’r prosesau cyfredol yng Nghymru yn sicrhau bod plant y mae angen gofal, cymorth ac amddiffyniad arnynt yn cael eu rhoi’n briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a’u tynnu oddi arni pan fydd tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Adolygiad cyflym o drefniadau amddiffyn plant - Canfyddiadau interim | Mehefin 2023 |

Cyhoeddom ein mewnwelediadau i raglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ hefyd, yn dilyn ein pedwar arolygiad rhanbarthol.

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru+: Mewnwelediadau hydref 2023 | Hydref 2023 |

Cyhoeddom y postiadau blog canlynol, hefyd:

Ar draws 2023-2024, cyhoeddom gyfanswm o 95 o astudiaethau achos hefyd, wedi'u seilio ar arfer effeithiol a nodwyd yn ystod arolygiadau a'r rhai y gwahoddwyd darparwyr i'w cyflwyno.

Yn ystod 2023-2024, parhaom i ddarparu cyngor a chymorth i Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen, gan gynnwys cymryd rhan mewn pwyllgorau, gweithgorau a grwpiau cynghori. Mae ychwanegiadau diweddar yn cynnwys y grŵp llywio diwygio ADY, y grŵp cyfeirio allanol ar gyfer addysg oedolion a'r gweithgor sy'n datblygu arweiniad statudol ar y cwricwlwm 16-19. Lle y gofynnwyd amdano, rhoesom gyngor, er enghraifft ar ddefnyddio Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau) mewn ysgolion.

Trwy gydol y flwyddyn, mynychodd uwch reolwyr ac AEF wrandawiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

- 14 Rhagfyr 2023: Y Bil Addysg Awyr Agored
- 21 Chwefror 2024: Adroddiad Blynyddol PAEF

**Cwricwlwm i Gymru**

O ran rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith, rydym wedi parhau i roi diweddariadau a chyngor rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar sail canfyddiadau arolygu ac ymweliadau thematig. Rydym wedi gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod cryfderau a meysydd i'w gwella o ran dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn cael eu cefnogi i wella'r cwricwlwm ac addysgu. Rydym yn canolbwyntio'n fanwl ar ba mor dda y mae polisi'n cael ei roi ar waith ledled Cymru ac yn rhoi awgrymiadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymagweddau awgrymedig i wella'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisïau. Mae hyn wedi cynnwys ystyried gwella ansawdd addysgu ac asesu, gwella dealltwriaeth o gynnydd a dilyniant a chefnogi datblygiad prosesau monitro.

Rydym wedi parhau i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am gryfderau a meysydd i'w gwella mewn asesu a dilyniant ar sail canfyddiadau arolygu ac wedi cyhoeddi ein hadroddiad thematig yn amlygu arfer effeithiol yn gysylltiedig ag addysgu ac asesu.

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â chamsyniadau trwy ein cyfathrebiadau ag arweinwyr ysgolion a GALlL ac wedi darparu cyfres o ddiweddariadau'r cwricwlwm yn ymwneud â'n hymagweddau at arolygu'r cwricwlwm ar gyfer arweinwyr ysgolion, staff rhanbarthol ac arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol.

**Effaith tlodi ar gyrhaeddiad**

Mae ein harweiniad arolygu yn parhau i ganolbwyntio ar werthuso effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles.

Ar draws y rhan fwyaf o'r darparwyr rydym yn eu harolygu, mae ein harolygwyr fel arfer yn casglu tystiolaeth o gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd o gartrefi ag incwm isel. Mae timau arolygu hefyd yn casglu tystiolaeth ar y graddau y mae arweinwyr yn rhoi sylw dyledus i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles. Lle mae'r agweddau hyn yn sylweddol, maent yn cynnwys naratif a gwerthusiad yn ein hadroddiadau. Mae ein hadroddiad thematig ar 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol' (Gorffennaf 2020) yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i liniaru effaith tlodi ac mae arolygwyr yn cynnwys sylwebaeth ar hyn, lle bo'n berthnasol.

Mae tlodi yn thema ganolog sy'n rhedeg trwy ein fframwaith arolygu newydd a gall arolygwyr gasglu tystiolaeth am waith yr ysgol ym mhob un o'r tri maes arolygu, lle y bo'n berthnasol. Bydd arolygwyr yn parhau i ddefnyddio'r ymagweddau hyn yn rhan o'n trefniadau arolygu newydd ym mis Medi.

Mae cyfleusterau chwilio yn galluogi ein grŵp o swyddogion arweiniol ar dlodi i archwilio ein seiliau tystiolaeth arolygu yn effeithlon er mwyn creu darlun cynhwysfawr o effeithiolrwydd ac effaith ymagweddau gwahanol. Rydym yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i rannu ein gwerthusiadau, sy'n helpu i lywio eu gwaith polisi. Rydym hefyd wedi cyflwyno ein gwaith yn y maes hwn mewn cynadleddau cenedlaethol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhannu diweddariadau ar ddatblygiadau polisi â ni ac rydym yn eu defnyddio i sicrhau bod y wybodaeth yn ein harweiniad atodol i arolygwyr yn gyfredol.

**Cymwysterau Cymru**

Rydym yn parhau i gydweithio â Cymwysterau Cymru i gyfrannu at ddatblygu cymwysterau TGAU / TAAU newydd. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid, yn ogystal ag ymateb i ymgynghoriadau. Rydym yn parhau i gyfarfod â staff o Cymwysterau Cymru, lle'r ydym wedi gallu trafod eu cynlluniau ar gyfer TGAU newydd yn fanylach. Rydym wedi rhoi ymatebion manwl yn ymwneud ag ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn hon, sef:

- Y Cynnig Llawn o ran Cymwysterau 14 i 16 yng Nghymru
- Ymgynghoriad ar y dull arfaethedig o ddynodi cymwysterau 14-16

**Ôl-16**

Ymwelodd ein harolygwyr cyswllt addysg bellach â'u colegau addysg bellach cysylltiedig yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf 2024 ac ymwelodd ychydig o arolygwyr cyswllt â'u partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn nhymor yr haf 2024. Mae'r ymgysylltu hwn yn helpu i ddatblygu deialog broffesiynol adeiladol i gefnogi gwerthuso a gwella.

Bu gennym ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o ran diwygio AHO a pharatoadau yn dilyn deddfwriaeth i greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr). Bu ein cyfarwyddwr cynorthwyol sy'n gyfrifol am y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar secondiad i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2023 hyd fis Mawrth 2024 i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i roi cyngor a gwybodaeth am agweddau ansawdd yn ymwneud ag addysg bellach a hyfforddiant a'r cyfnod pontio wrth baratoi ar gyfer y Comisiwn.

**Ymatebion i ymgynghoriadau**

Defnyddiom ein sail dystiolaeth helaeth hefyd i ymateb i 22 o ymgynghoriadau ar ystod eang o faterion addysgol yn ystod y flwyddyn ariannol, sef 13 ohonynt gan Lywodraeth Cymru a 9 gan sefydliadau eraill. Roedd ymatebion ymgynghoriadau'n cynnwys:

- Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r daith
- Cymru Wrth-hiliol
- Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023
- Rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig
- Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Mae tudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru i'w gweld yma.

Gallwch weld ein holl ymatebion i ymgynghoriadau ar ein gwefan:

**Ymatebion i gynigion ad-drefnu ysgolion**

| 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|
| 33 | 30 | 32 | 11 | 31 |

Yn 2023-2024, ymatebom i 31 o gynigion ad-drefnu ysgolion, a oedd yn ôl i lefelau blynyddoedd cynharach ar ôl gostyngiad yn 2022-2023. Yn y rhan fwyaf o achosion, daethom i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau cyfredol o leiaf o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Nodom fod y cynigiwr wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer y cynnig ac wedi rhoi rhesymau pam roedd y newid yn angenrheidiol.

**Cyngor a chymorth i grwpiau llywio cenedlaethol allweddol**

Yn ogystal, parhaom i gyfrannu at ystod o grwpiau llywio cenedlaethol yn ystod y flwyddyn, y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:

Grwpiau dal i fyny / cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid: 61
Pwyllgorau: 13
Gweithgorau sydd wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol: 54
Grwpiau prosiect: 11
Grwpiau cyfeirio: 10
Ceisiadau i gymryd rhan mewn ymchwil: 9

Mae enghreifftiau o'r grwpiau a fynychwyd eleni fel a ganlyn:

- Llywodraeth Cymru – Ysgolion sy'n peri pryder

- Grŵp Diogelu mewn Addysg Cymru Gyfan
- Llywodraeth Cymru – Grŵp Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdodau Lleol
- Fforwm Ymarferwyr Addysg Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan
- Gweithgor Safonau Digidol
- Bwrdd Rhaglen Arolygu Cymru
- Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol

# Amcan Strategol 3:

## Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae gwybodaeth a gesglir o waith arolygu ac ymgysylltu a gwaith arolygon thematig yn ein helpu i chwarae rôl allweddol mewn meithrin gallu i wella ar draws y system addysg. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymgynghoriadau ac arolygon, cynadleddau, digwyddiadau rhanddeiliaid, digwyddiadau hyfforddiant a chyhoeddi adnoddau gwella ar ein gwefan. Mae ein hadnoddau gwella'n cynnwys: adroddiad blynyddol PAEF, adroddiadau thematig dylanwadol ac ystod eang o arfer effeithiol.

Mae ein gweithgarwch ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr eraill yn ein helpu i amlygu enghreifftiau o arfer ddiddorol sy'n deilwng i'w rhannu. Mae'r enghreifftiau hyn wedi'u crynhoi mewn astudiaethau achos o arfer effeithiol yr ydym yn eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn gweld argymhellion ein hadroddiadau thematig, ein harweiniad a'n hastudiaethau achos o arfer effeithiol drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo ein hadnoddau trwy gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan gan ddefnyddio graffeg a fideos i hybu ymgysylltu a denu sylw penaethiaid ac athrawon prysur a phobl eraill sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant, neu'n ei gefnogi.

Mae **adroddiad blynyddol PAEF** yn adnodd allweddol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol sy'n cyflwyno mewnwelediadau o'r ystod o waith Estyn i amlinellu'r hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn y mae angen ei wella ym mhob un o'r sectorau rydym yn eu harolygu, yn ogystal â myfyrio ar ddatblygiad yn y sector sy'n cyd-fynd â nifer o themâu allweddol fel tlodi a chyrhaeddiad, y Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant, ac agweddau at ddysgu a phresenoldeb. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio ar-lein a'i fwriad yw bod yn bwynt cyfeirio ac yn adnodd ar gyfer gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol drwy gydol y flwyddyn.

**Adroddiad thematig: Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd**

Yr adroddiad hwn oedd y lawrlwythiad mwyaf poblogaidd ar ein gwefan yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n rhoi trosolwg o ba mor dda y mae ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yn rhoi agweddau allweddol ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a'r Cod ADY sy'n cyd-fynd â hi, ar waith. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol cyfranogol wedi cynorthwyo ysgolion.

Gall Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion ddefnyddio'r adroddiad i gyfrannu at drafodaethau proffesiynol am y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

Mae hefyd o ddiddordeb i rieni a phartneriaid perthnasol.

Cyhoeddwyd 95 astudiaeth achos o arfer ddiddorol yn ystod 2023-2024, gyda 75,978 o ymweliadau unigryw â'r tudalennau Cymraeg a Saesneg ar y rhan hon o'r wefan yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn 2023-2024, cynhaliom raglen lawn o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb.

Cynhaliom 31 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys 11 o ddigwyddiadau i randdeiliaid ac 20 o ddigwyddiadau hyfforddiant. Cynhaliwyd 5 digwyddiad i randdeiliaid wyneb-yn-wyneb a 6 ohonynt ar-lein. Gwelsom 65 o randdeiliaid yn mynychu lansiad adroddiad blynyddol PAEF yn y Senedd ym mis Ionawr ac roedd 462 o gynrychiolwyr yn bresennol yn ein cynhadledd genedlaethol i benaethiaid yng Nghaerdydd ym mis Chwefror, gyda 490 o gofrestriadau unigol. O'r digwyddiadau hyfforddiant i arolygwyr a gynhaliwyd, roedd 17 ohonynt wyneb-yn-wyneb a 3 ohonynt ar-lein.

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gawn gan gynrychiolwyr ac yn ei ddefnyddio i wella'n barhaus. Aethom ati i goladu adborth o'n digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau arfer orau a chawsom lawer o adborth cadarnhaol. Cyflwynwyd graddfa newydd o 1-5 yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn gydag 1 = ofnadwy a 5 = rhagorol. Cafodd y digwyddiadau gyfartaledd o 4.67 yn ystod y cyfnod.

Ym mis Chwefror, cynhaliom Gynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid yn Stadiwm Dinas Caerdydd i rannu gwybodaeth, arfer orau a thrafod y broses arolygu newydd.

Roedd 462 o gynrychiolwyr yn bresennol ac o'r rhai a ddychwelodd yr arolwg gwerthuso drwy'r post, cadarnhaodd 96% ohonynt fod y gynhadledd wedi bodloni eu disgwyliadau. Cafodd y Gynhadledd ei chroesawu'n fawr gyda sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â'r cyd-destun, y casgliadau a'r cyfleoedd rhwydweithio.

**"Rhoddodd y gynhadledd sicrwydd i mi fod Estyn yn gwerthfawrogi penaethiaid. Roedd yn pwysleisio y bydd y fframwaith arolygu newydd yn broses gefnogol".**

**"Roeddwn i'n meddwl bod y diwrnod wedi'i drefnu'n dda iawn ac yn addysgiadol iawn. Roeddwn i'n hoffi natur hamddenol y cyflwyniad ar y newidiadau newydd ar gyfer mis Medi 2024 ac yn teimlo ei fod yn dod o ongl gefnogol iawn".**

**"Roedd y gynhadledd hon yn syniad gwych ac mae wedi bod o gymorth mawr i mi o ran deall y fframwaith newydd".**

**"Rhoddodd wybodaeth ac ysbrydoliaeth newydd i mi i wella paratoadau ein hysgol ar gyfer arolygiad".**

Parhaom â’n digwyddiadau Estyn yn Fyw sy’n cael eu ffrydio’n fyw:

- 24 May – Llywodraethwyr Ysgol: Gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac effaith hyfforddiant
- 11 Medi – Datblygu medrau darllen
- 23 Hydref – Prentisiaethau a rhaglen Twf Swyddi Cymru+

Mae presenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn cynyddu’n gyffredinol, er bod y gynulleidfa darged ar gyfer pob digwyddiad yn amrywio o ran maint. Gwelodd y digwyddiad Estyn yn Fyw a oedd yn canolbwyntio ar lywodraethwyr ysgolion 94 o ymwelwyr byw, gyda 217 o olygon ar y recordiad ar ôl y digwyddiad. Roedd 114 o ymwelwyr yn bresennol yn y digwyddiad Estyn yn Fyw ar ‘Datblygu medrau darllen’, a gwyliodd 227 o bobl y recordiad ar ôl y digwyddiad. Roedd y digwyddiad Estyn yn Fyw a oedd yn canolbwyntio ar Brentisiaethau a rhaglen Twf Swyddi Cymru+ wedi’i dargedu at gynulleidfa benodol a llawer llai, ac fe ddenodd 40 o fynychwyr i’r digwyddiad byw.

Rydym yn parhau i dreialu fformatau a sianeli newydd i wneud y digwyddiadau hyn yn fwy trawiadol ac ystyrlon i’n cynulleidfaoedd.

### Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024-2030)

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cynhaliom ymarferion ymgynghori mawr i baratoi ar gyfer ein trefniadau arolygu newydd. Cynhaliwyd ymarferion ym mhob un o’n sectorau perthnasol ac aethom ati i gael adborth gan ddarparwyr a gafodd arolygiadau peilot hefyd, gan ei fwydo i drafodaethau pellach a diweddariadau i’n harweiniad arfaethedig. Cynhwysom sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys y grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr a’r fforwm athrawon. Ymdriniwyd â hyn drwy ein cyfarfodydd tymhorol â’n grŵp cyfeirio i benaethiaid a’n grŵp cyfeirio ôl-16, hefyd. Cafodd y ddau grŵp eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cynlluniedig.

Lansiom ein cymuned newydd i rieni a gofalwyr ym mis Ionawr, gan gwblhau un arolwg ar ein holiaduron arolygu ac adroddiadau i rieni. Er mai ymateb eithaf bach a gafwyd, byddwn yn parhau i ddatblygu’r defnydd o’r gymuned hon, er enghraifft fel rhan o waith thematig.

Cynhaliom ein Cynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid hefyd ar 29 Chwefror, a oedd â thua 500 o gynrychiolwyr yn bresennol, a defnyddiom y gynhadledd hon i amlinellu ein cynlluniau mewn perthynas â’n trefniadau arolygu newydd, yn ogystal â rhoi cyfle i ysgolion gyflwyno enghreifftiau o arfer orau a nodwyd gennym yn ystod arolygiadau. Mae gwerthusiadau’n dangos bod y digwyddiad wedi cael ei groesawu’n fawr ac wedi bodloni disgwyliadau bron pob un o’r cynrychiolwyr.

### Arolygwyr cymheiriaid

Parhaodd arolygwyr cymheiriaid (ymarferwyr proffesiynol sydd â rôl arwain mewn ysgol neu ddarparwr ac sydd â phrofiad addysgu neu hyfforddi sylweddol yn y sector perthnasol) yn rhan annatod o’n prosesau arolygu. Mae gennym tua 1,055 o arolygwyr cymheiriaid ar ein rhestrau.

Rydym yn recriwtio a hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ar gyfer pob sector ac eithrio’r sector meithrin nas cynhelir. Caiff arolygwyr cymheiriaid yn y sector a gynhelir eu defnyddio i gynnal arolygiadau craidd a thematig. Defnyddiwyd arolygwyr cymheiriaid yn y sector annibynnol i gynnal ymweliadau interim ag ychydig o’n darparwyr. Rydym

yn adolygu ein cronfa o arolygwyr bob blwyddyn ac yn darparu hyfforddiant, fel y bo'n briodol.

Defnyddiom arolygwyr cymheiriaid ar 295 o arolygiadau hefyd trwy gydol y flwyddyn adrodd hon.

Eleni, fe wnaethom beilota rhaglen datblygu arweinwyr i ymarferwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig hefyd i godi eu hymwybyddiaeth o'n gwaith a'u hannog i fod yn arolygwyr cymheiriaid yn y dyfodol. Ar gyfer hyn, cawsom grant arloesi gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Arweiniodd yr ymgyrch recriwtio yn llwyddiannus at 18 o ymgeiswyr. Dewiswyd pedwar ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach, a rhoddwyd dau ar lwybr carlam i gael hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid, gan gynnal y digwyddiad wyneb-yn-wyneb cyntaf ar 27 Hydref.

### Arolygwyr cyswllt

Parhaodd ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol (ACALlau) â'u gwaith cyswllt â'u hawdurdodau lleol, gan ganolbwyntio ar dair agwedd eleni – presenoldeb, gwella ysgolion a thlodi. Mae ein gwaith cyswllt â'r gwasanaethau gwella ysgolion yn adeiladu ar eu cymorth pwrpasol i ysgolion a'u gwerthusiad o'u gwaith. Rydym hefyd wedi peilota ymagweddau gwahanol at ein gwaith, gan gynnwys ymweliadau manylach gan ACALlau, gan roi adborth ysgrifenedig i'r awdurdodau lleol dan sylw.

Parhaom â'n gweithdai asesu risg ym mhob awdurdod lleol hefyd gyda chydweithwyr o Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Dechreuom gyfres o ymweliadau cyswllt â charchardai ar draws yr ystâd gyfiawnder hefyd o fis Medi 2023 i fis Ionawr 2024.

### Ein gwefan

Mae gwneud yn siŵr fod ein cyhoeddiadau'n hygyrch ac yn ddeniadol yn flaenoriaeth i ni ac, eleni, rydym, wedi dechrau gwaith datblygu ar wefan newydd, a fydd yn sicrhau y gall ein hadroddiadau a'n dogfennau gael eu cyflwyno a'u cyrchu'n haws. Rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ac wedi cynnal profion defnyddwyr i sicrhau ein bod yn cynnwys anghenion gweithwyr proffesiynol addysg, rhieni a gofalwyr a'n gweithlu ein hunain yn Estyn yn y cynllun dylunio.

Rydym wedi parhau i gyhoeddi ein math newydd o adroddiadau arolygu cryno i rieni, gofalwyr, dysgwyr ac ymarferwyr. Caiff y wefan newydd ei lansio yn ystod haf 2024.

# Sut y cyflawnwn ein gwaith:

## Adeiladu sefydliad gwell a byw'n unol â'n gwerthoedd

**Lle gwych i weithio**

**Trwy gydol 2023-2024, rydym wedi parhau â'n gwaith i sicrhau bod Estyn yn lle gwych i weithio ac wedi adeiladu ar gynnydd y llynedd.**

Cyhoeddom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028, sy'n pennu targedau uchelgeisiol i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad.

Roedd y rhaglen hyfforddi carlam gyntaf a oedd wedi'i hanelu at arweinwyr canol ac uwch arweinwyr mewn addysg o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn hynod lwyddiannus, gyda'r cynrychiolwyr yn canmol y DPP am fod yn berthnasol ac o safon uchel iawn. Mae recriwtio i'r ail garfan yn mynd rhagddo.

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2023:

Sgôr ymgysylltiad staff: 67%
(Chwartel uchaf Perfformwyr Uchel y Gwasanaeth Sifil 64%)

Roedd ein Sgôr Ymgysylltiad uwchlaw meincnod perfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil



Ar ôl bod yn is yn 2022, dangosodd canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil fod Estyn yn y chwartel uchaf o ran ymgysylltu â gweithwyr ar draws y Gwasanaeth Sifil. Roedd chwech (i fyny o 2 yn 2022) allan o naw o'r themâu yn cyrraedd meincnod perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil neu'n uwch.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn datblygu ein strategaeth pobl – i ystyried effaith materion ariannol, sefydliadol a diwylliannol ar Estyn fel cyflogwr, ar les cydweithwyr ac ar brosesau sefydliadol.

- Adnoddau: rydym wedi cynyddu nifer ein staff, gyda nifer o AEF a chydweithwyr gwasanaethau canolog newydd.
- Rydym wedi nodi'r materion a godwyd yn yr arolwg ar fwlio ac aflonyddu a gynhaliwyd gan FDA a PCS. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gwrthfwlio ac aflonyddu gorfodol i'r holl staff ac wedi penodi tri swyddog cyswllt bwlio ac aflonyddu.
- Rydym wedi gwneud diwygiadau i'r cyfleuster i gydweithwyr gymryd amser lles bob wythnos, gyda darpariaethau gwell ar gyfer AEF a'r Gwasanaethau Canolog.
- Bu'r Grŵp Defnyddwyr Llety yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf enbyd a wynebwyd gan AEF.
- Amgylchedd y swyddfa – bu grŵp yn datblygu gwelliannau i gynllun y swyddfa a mannau preifat – dechreuodd gwaith adnewyddu llawn ym mis Ionawr 2024, a fydd yn cynnwys lle i weddïo.

- Penodom Swyddog Cymdeithasol i geisio cynyddu a gwella ymgysylltiad gweithwyr ar draws y sefydliad.
- Rhoddwyd cynllun ar waith i ymgymryd â phrosiect sylweddol i gyflwyno ein system cynllunio a lleoli newydd yn lle Cygnum – trwy benodi dadansoddwr systemau/busnes a fydd yn ymgymryd â chyfnod darganfod y prosiect ac yn llunio manyleb i ni benodi cwmni i adeiladu system newydd.
- Rhoddwyd system adnoddau dynol newydd ar waith ac mae wrthi'n cael ei chyflwyno.
- Mae rhaglen datblygu arweinyddiaeth newydd ar waith.

Y trosiant ar gyfer y flwyddyn oedd 9.81% (o gymharu ag 14.4% yn 2022-2023)

Roedd 15 o ymadawyr yn ystod y cyfnod: 2 arolygydd a 13 o'r gwasanaethau canolog

**Perthynas ag undebau**

Yn ystod 2023-2024, cynhaliom ein perthynas gynhyrchiol a phroffesiynol â'r ddau undeb, sef Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a FDA. Rydym yn trafod deilliannau'r Arolwg Pobl blynyddol â'n gilydd, ynghyd â sut byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Pobl fedrus**

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i sicrhau bod ein rhaglen dysgu a datblygiad yn cynorthwyo staff i ddatblygu ymhellach y medrau sy'n helpu i danategu ein gwerthoedd a chynnal ein lefelau uchel o ymgysylltiad.

Cwblhawyd y rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cyntaf yn ystod hydref / gaeaf 20232024, gyda rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer AEF ac ar gyfer y Gwasanaethau Canolog. Cwblhaodd cyfanswm o 14 o bobl y cyrsiau a luniwyd i wella medrau strategol a rheoli fel pennu cyfeiriad, arwain trwy newid, annog/mentora, cymell a dylanwadu. Eto, bu'r rhaglenni'n hynod lwyddiannus ac mae'r ail garfan i fod i ddechrau ym mis Medi.

Cynhaliwyd y gweithgareddau datblygu proffesiynol canlynol yn ystod 2023-2024 hefyd:

- ymsefydlu i ymunwyr newydd (rhithwir a wyneb-yn-wyneb pan laciwyd y cyfyngiadau)
- parhaom i gefnogi staff i ddatblygu medrau Cymraeg
- cefnogi iechyd meddwl da a chodi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl
- presenoldeb mewn seminarau a chynadleddau proffesiynol ar gyfer cyflogeion arolygu a'r gwasanaethau canolog

Gwnaethom flaenoriaethu amser yn ystod wythnosau dysgu proffesiynol i gefnogi AEF i feithrin gwybodaeth a phrofiad o'n trefniadau arolygu newydd a chawsom gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu offeryn hunanwerthuso. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac rydym wrthi'n trafod pryd i'w lansio.

Rydym wedi sicrhau'n benodol fod ein cynllun ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer ein harolygwyr mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar gefnogi diwygiadau i'r cwricwlwm, AHO ac ADY a hunanwerthuso er mwyn gwella. Rydym wedi gwneud hyn trwy:

- gryfhau hyfforddiant cychwynnol i arolygwyr cymheiriaid i gynnwys arweiniad ar arolygu ADY a hunanwerthuso ar gyfer gwella
- cynyddu nifer yr arolygwyr ychwanegol y gellir eu defnyddio wrth arolygu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed, gyda hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn ystod hydref 2024
- trefnu hyfforddiant mewn Iaith Arwyddion Prydain yn ystod wythnosau dysgu proffesiynol i AEF sy'n gweithio yn y sector arbennig neu'n ymweld â chanolfannau adnoddau arbenigol
- rhannu cyflwyniadau â phob AEF ar negeseuon allweddol o'n gwaith thematig ar ADY

**Cydraddoldeb a lles cyflogeion**

Yn ystod 2023-2024, parhaom i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cynnwys y modd yr ystyriwn gydraddoldeb pan fyddwn yn arolygu, a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ein hunain a'r rheiny rydym yn contractio â nhw yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal. Diweddarom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sydd bellach yn adlewyrchu ein bwriadau hyd at 2028: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut byddwn yn gweithio i gyflawni ein tri amcan cydraddoldeb:

- Byddwn yn gweithio i gynyddu amrywiaeth ein staff, ein harolygwyr allanol a lleisiau'r rhanddeiliaid sy'n cyfoethogi ein gwaith
- Byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sicrhau triniaeth deg i'n gweithlu cyfan, staff ac arolygwyr dan gontract, gan fynd i'r afael â bwlio a gwahaniaethu pa bryd bynnag y bydd yn digwydd
- Byddwn yn gwerthuso materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gynnal arolygiadau ac yn ein gwaith thematig, gan rannu arfer dda a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn ôl yr angen

Roedd ein cynhadledd staff ym mis Ionawr ar y pwnc "Belonging/Cynefin", a chafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau a oedd yn bwydo gwaith ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Parhaodd ein gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru).

Cafodd ein pryder am iechyd a lles eich staff ei gydnabod ddiwethaf gan ein hailachrediad i'r Safon Iechyd Gorfforaethol ym mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru/Cymru Iach ar Waith yn cynnal rhaglen ailachredu'r Safon Iechyd Gorfforaethol mwyach. Yn hytrach, mae'n bwriadu lansio gwefan rhyngweithiol newydd, lle bydd sefydliadau ledled Cymru yn gallu manteisio ar amrywiaeth o adnoddau 'arfer orau'.

Mae lles a diogelwch ein staff yn flaenllaw yng nghynllluniau ein sefydliad. Mae’r grŵp lles ac ymgysylltiad cyflogeion yn hyrwyddo lles yn rheolaidd trwy drefnu hyfforddiant a chysylltu â digwyddiadau cenedlaethol fel wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl, mis Pride, mis gofalwyr, heriau beicio ac wythnos iechyd dynion.

Rydym yn sicrhau hefyd fod yr holl staff:

- yn cael meddalwedd, gliniaduron ac offer TG arall i weithio’n ddiogel ac yn effeithiol o gartref
- yn ymwybodol o’r gwasanaethau cymorth sy’n cael eu cynnig drwy’r Rhaglen Cymorth i Weithwyr – roedd hyn yn cynnwys ystod o weminarau wythnosol Care First a rannwyd â chydweithwyr
- yn cael ystod o offer diogelwch sy’n ofynnol i gyflawni eu hymweliadau gweithgarwch arolygu yn ddiogel
- yn cael y cyfle i adolygu’u hasesiad DSE, yn dilyn newidiadau i’w trefn weithio wreiddiol gartref/yn y man gweithio
- yn cael y cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol
- yn ymwybodol o’r ‘awr lles’ i helpu gwella ‘cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith’, lle gall cydweithwyr fanteisio ar weithgareddau, gan gynnwys cerdded, garddio a chadw’n heini fel rhan o’u diwrnod gwaith

**Safonau’r Gymraeg**

Yn 2023-2024, cyhoeddwyd ein 11eg Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2022-2023 a oedd yn cynnwys crynodeb o gynnydd a blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024. Amlygodd yr adroddiad y modd y parhaom i gydymffurfio’n llwyddiannus â’r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnom fel sefydliad o dan Safonau’r Gymraeg.

Buom yn rhagweithiol o ran nodi cyfleoedd i ymestyn medrau Cymraeg staff, gan gynnal arolwg o fedrau presennol ac amlygu lle mae cyfleoedd hyfforddiant ar gael.

Bodlonwyd gofynion Safonau’r Gymraeg

**Sylwadau a chwynion**

Yn ystod 2023-2024, gostyngodd nifer y cwynion a gawsom am ein gweithgarwch arolygu o gymharu â’r rhai yr ymchwiliwyd iddynt y flwyddyn gynt. Cafwyd dwy gŵyn cam 2 yn ystod y cyfnod ac roedd y ddwy ohonynt yn destun ymchwiliad ffurfiol.

| | | |
|---|---|---|
| Ymddygiad a barnau arolygu tîm arolygu uwchradd | Ebrill 2023 | Cadarnhawyd yn rhannol |
| Rheolaeth ail ymweliad cofrestru ag ysgol arbennig annibynnol | Ionawr 2024 | Cadarnhawyd yn rhannol |

Yn y ddau achos, darparwyd ymateb llawn erbyn y terfyn amser gofynnol neu estynedig cytûn. Lle y cadarnhawyd agweddau ar y cwynion, lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn gallu mynd i’r afael â’r materion cyn gynted â phosibl, naill ai drwy hyfforddiant neu drwy addasu ein systemau a’n prosesau.

Cafwyd cyfanswm o 11 o gwynion anffurfiol cam 1 hefyd, yr oedd pob un ohonynt yn mynnu ymateb ar ffurf nodyn esboniadol am ein gweithdrefnau a'n penderfyniadau neu alwad ffôn i roi sicrwydd am ein systemau, yn ôl yr angen.

Cofnodom gyfanswm o 65 o ganmoliaethau ynglŷn â'n gwaith hefyd, er enghraifft o ran ymddygiad ein harolygwyr, ein cymorth mewn hyfforddiant neu wrth gymryd rhan mewn cynadleddau ac ar gyfer y modd y cynhaliwyd ein harolygiadau peilot.

Rydym yn ymdrechu i wella ein prosesau'n barhaus, gan ddefnyddio'r profiad o bob ymchwiliad i gŵyn i fireinio ein harweiniad mewnol. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y modd rydym yn rheoli cwynion a'n harweiniad dros y flwyddyn i ddod.

Trefnom gyfres o sesiynau hyfforddi ar reoli cwynion eleni hefyd, gyda phob uwch reolwr yn cymryd rhan er mwyn sicrhau gwybodaeth briodol am arfer orau yn y maes hwn.

Dwy gŵyn ffurfiol – cwblhawyd erbyn y terfyn amser estynedig cytûn

**Ceisiadau am wybodaeth**

Eleni, cawsom gyfanswm o 25 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sef chwech yn fwy na'r llynedd, ac ymatebom i bob un ohonynt cyn pen 20 diwrnod gwaith.

Rhyddhaom y wybodaeth i gyd mewn 14 o achosion, ei rhyddhau'n rhannol mewn pum achos (deirgwaith oherwydd nad oedd gwybodaeth arall yn cael ei chadw a chymhwyso eithriadau Adran 31 mewn dau arall oherwydd y byddai ei datgelu wedi peri risg i'n systemau TG), peidio â'i rhyddhau mewn dau achos (gan gymhwyso eithriadau Adran 33 ynghylch ein swyddogaethau archwilio yn y ddau achos ynghyd ag eithriadau Adran 40(2) yn ymwneud â data personol yn un o'r achosion), nid oedd gennym unrhyw wybodaeth i'w rhyddhau mewn tri achos, a thynnwyd un achos yn ôl.

Ymchwiliwyd ac ymatebwyd i'r holl geisiadau cyn pen y terfynau amser statudol

Mae manylion am geisiadau ac ymatebion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan, a gellir eu gweld yma.

**Adrodd ar gynaliadwyedd a bioamrywiaeth**

Parhawn i chwilio am gyfleoedd i nodi ffyrdd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac amlinellwyd y rhain yn ein hadroddiad amgylcheddol.

Mae allyriadau CO2 wedi codi 27% yn 2023-2024 (117,466 kg CO2) o gymharu â'r flwyddyn gynt ac maent bellach yn agos at allyriadau 2019-2020 (cyn pandemig COVID-19). Mae ein sefydliad a'n llwyth gwaith wedi cynyddu yn ystod cyfnod yr adroddiad; mae ein cyllideb wedi cynyddu 2.9m ac mae ein staff, ar 31 Mawrth 2024, wedi cynyddu i 149 o gyflogeion (gan gynnwys staff parhaol, secondeion a staff asiantaeth) o gymharu â 128 ar 31 Mawrth 2023.

Mae ein prif effaith ar yr amgylchedd yn deillio o allyriadau CO2 trafnidiaeth pan fydd ein harolygwyr yn ymweld â darparwyr addysg a hyfforddiant. Cynhaliom 427 o arolygiadau craidd yn 2023-2024 (391 yn 2022-2023), ynghyd â gweithgarwch sylweddol yn ymwneud ag arolygiadau dilynol, adroddiadau thematig a digwyddiadau/hyfforddiant. Rydym wedi gweithio'n galed i ddal i fyny ag arolygiadau a gollwyd (ar ôl pandemig COVID-19) a byddwn yn cwblhau'r cylch arolygu diwethaf erbyn diwedd mis Awst 2024. Ar yr un pryd, rydym wedi datblygu a threialu ein trefniadau arfaethedig ar gyfer ein cylch arolygu newydd 2024-2030 (ar draws y rhan fwyaf o sectorau), a fydd yn dechrau ym mis Medi 2024.

Cyfanswm ein hallyriadau o drafnidiaeth oedd 103,082 kg CO2 yn 2023-2024 (86,508 kg CO2 yn 2022-2023). Daeth ein milltiredd mewn ceir preifat a cheir wedi'u hurio i gyfanswm o 367,814 o filltiroedd yn ystod 2023-2024, o gymharu â 304,663 yn 2022-2023. Daeth ein milltiredd awyr i gyfanswm o 6,284 milltir a rheilffordd i 6,189 milltir yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Caiff rhai digwyddiadau i randdeiliaid eu cynnal ar-lein hefyd, sy'n cyfrannu at leihau ein hallyriadau CO2. Yn 2023-2024, o 11 o ddigwyddiadau i randdeiliaid, cynhaliwyd 6 ohonynt ar-lein ac o 20 o ddigwyddiadau hyfforddiant, cynhaliwyd 3 ohonynt ar-lein ac 17 ohonynt wyneb-yn-wyneb.

Caiff taliad am ddefnydd nwy yn ein hadeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid a'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae lleihau maint ein swyddfa wedi effeithio ar ein defnydd nwy, gan fod staff y gwasanaethau canolog yn dilyn patrwm gweithio hybrid. Roedd allyriadau $CO_2$ o ddefnydd nwy yn 7,177 kg CO2 yn 2023-2024 (6,080 kg $CO_2$ yn 2022-2023).

O ran trydan, er 1 Medi 2023, cyflwynodd y landlord gontract trydan newydd ar gyfer yr adeilad cyfan. Caiff taliad ar gyfer defnydd trydan yn yr adeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid a'i dalu'n uniongyrchol iddo ef. Tan hynny, roeddem wedi elwa ar gontract Ynni Masnachol y Goron Cymru Gyfan – sef contract ynni glân (nad yw ar gael i'r landlord), gydag allyriadau wedi'u cofnodi fel sero. Yr allyriadau ar gyfer trydan ar gyfer y cyfnod o 1 Medi 2023 hyd 31 Mawrth 2024 oedd 7,207 kg CO2.

Hefyd, dyma'n chweched flwyddyn o adrodd bod dim gwastraff wedi mynd i safleoedd tirlenwi.

Yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein gwefan, caiff ein Polisi Amgylcheddol ei arddangos yn ein cyfleuster hyfforddi yn y swyddfa. Yn unol â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, mae'r Polisi'n ymgorffori sut byddwn yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac yn hybu gwydnwch.

Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol o adroddiadau cynaliadwyedd ac amgylcheddol ar 11 a 12 Medi 2023. Rhoddwyd sicrwydd sylweddol ac ni chafwyd unrhyw argymhellion.

Cytunwyd ein Polisi Amgylcheddol 2023 gan ein Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2023 ac mae'n cynnwys ein cydymffurfiaeth â dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn cydnabod rheolaeth amgylcheddol effeithiol. Ailachredwyd Estyn i lefel 3 y Safon ym mis Gorffennaf 2023.

## Uchafbwyntiau perfformiad ariannol

Cyfanswm ein cyllid ar gyfer 2023-2024 gan Lywodraeth Cymru oedd £13.613m. O'r cyllid hwn, roedd £13.363m ohono i gwmpasu costau gweithredu a dibrisiant, sef cynnydd o £2.14m (19%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd costau gweithredu yn sylweddol yn ystod y cyfnod oherwydd pwysau chwyddiant domestig a rhyngwladol. Cododd costau dibrisiant yn sylweddol hefyd oherwydd gweithredu IFRS 16, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endid gydnabod prydlesi penodol fel asedau a'u dibrisio'n briodol[1]. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, nodom arbedion, a rhesymoli ac ailflaenoriaethu gweithgareddau gweithredol. Oherwydd hynny, daeth cyfanswm y costau gweithredu net am y flwyddyn i £13,091m (sef cynnydd o 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Yn 2022-2023, defnyddiom gyllid grant a oedd yn dod i gyfanswm o £169,000 i gefnogi sawl rhaglen waith, gan gynnwys,

- adolygiad o ddarpariaeth AGA/AHO mewn addysg bellach
- adolygiad o'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol
- adolygiad thematig o ddarpariaeth ADY yng Nghymru
- rhoi cyngor ar gofrestru sawl coleg arbenigol annibynnol ac adolygu ceisiadau newid perthnasol gan ysgolion prif ffrwd ac arbenigol annibynnol yng Nghymru, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2016
- datblygu adnodd rhyngweithiol i ysgolion ar ddefnyddio data a thystiolaeth ar gyfer hunanwerthuso[2]
- adolygiad o strwythurau a phrosesau amddiffyn plant (ar y cyd ag AGC, AGIC a Gwasanaeth Prawf EF)

Mae costau staff ar gyfer y cyfnod yn cynnwys swyddi ychwanegol yn yr adrannau Arolygu a Gwasanaethau Canolog, gyda nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn barhaol yn ystod y cyfnod yn cynyddu 6.9, tra gostyngodd nifer gyfwerth y cydweithwyr asiantaeth ac ar secondiad 1.2. Mae hefyd yn cynnwys dyfarniad cyflog o 4% i'r holl staff heblaw Uwch Weision Sifil o 1 Ebrill 2022, sy'n gyson â'r dyfarniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei staff. Mae manylion ein polisi tâl a chyfraddau cyflog ar gael yn ein Datganiad Polisi Tâl cyhoeddedig. Mae'r cynnydd yng nghostau staff yn ffactor sylweddol yn y gwariant cyffredinol cynyddol o gymharu â 2021-2022.

Yn ystod y flwyddyn, parhaom i fuddsoddi at y dyfodol trwy,

- osod 20 o ddesgiau sefyll ac eistedd newydd a chadeiriau cysylltiedig yn ein swyddfa yn Llys Angor i gefnogi lles corfforol cydweithwyr
- parhau i ddatblygu ein Hystafell Arolygu Rithwir i ddarparu amgylchedd symlach, mwy effeithlon a mwy dibynadwy i gydweithwyr weithio ag ef
- caffael technolegau a gwasanaethau e-ddysgu i ddatblygu a gwella gwybodaeth a medrau staff (gan gynnwys cymhwysiad i wella cymwyseddau Cymraeg)

[1] Cyn rhoi IFRS 16 ar waith, byddai costau prydles yn gysylltiedig â'n swyddfeydd yn Llys Angor wedi'u cynnwys mewn costau Llety.


[2] Mae cyllid ar gyfer y llif gwaith hwn wedi'i rannu'n gyfartal rhwng blynyddoedd ariannol 2022-2023 a 2023-2024.


- comisiynu adolygiad annibynnol o'n gwefan i asesu ei haddasrwydd i fodloni anghenion ein rhanddeiliaid
- dechrau ein prosiect 'Arolygu ar gyfer y Dyfodol' i ddatblygu fframwaith arolygu newydd cyn ei roi ar waith ym mlwyddyn academaidd 2024
- dechrau prosiect trawsnewid digidol a fydd yn manteisio ar dechnolegau a systemau newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad

Defnyddiom £202,000 o'r gyllideb cyllid cyfalaf o £250,000 a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd bron yr holl gyllid hwn ar amnewid offer TG a oedd yn heneiddio neu'n ddarfodedig, gan gynnwys eitemau i gefnogi ein seilwaith TG a gliniaduron i staff.


Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SofFP) ar 31 Mawrth 2024 yn dangos rhwymedigaethau net o £1.170m (2022-2023: rhwymedigaethau net o £104,000). Nid yw'n anarferol i'n SofFP ddangos gwarged neu ddiffyg cymharol fach ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd y lefel uchel o symiau sy'n dderbyniadau a symiau sy'n daladwy.

Yn ystod 2024-2025, byddwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni ein rhwymedigaethau yn unol â'r sail 'busnes gweithredol a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn. Ni chafwyd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2023-2024 a gadawodd 1 aelod staff dan y cynllun ymadael yn gynnar.




Costau heb fod yn gostau staff 2022-2023 a 2023-2024
Gwariant £000oedd
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
£136
£160
£698
£754
£662
£697
£344
£535
£798
£845
£43
£208
£195
£234
£97
£123
Llety
TG a Thelathrebu
Teithio a Chynhaliaeth
Gweinyddu cyffredinol
Adnoddau arolygu allanol
Cyffredinol yn gysylltiedig ag arolygu
Dibrisiant
Y Gymraeg
2022-2023
2023-2024

**Cyfanswm gwariant (refeniw a chyllid) yn ôl penawdau cyllideb ar gyfer 2023-2024**



# Adran 2
# YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD



## 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae ein **Grŵp Rheoli Strategol**, sy'n cynnwys aelodau gweithredol (PAEF a'r cyfarwyddwyr strategol), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEF i arwain a rheoli Estyn yn gorfforaethol. Mae ein **Grŵp Gweithredol**, a fynychir gan ein cyfarwyddwyr, yn cefnogi PAEF wrth arwain a rheoli gwaith cynghori ar arolygu a pholisi Estyn, yn ogystal â chyflawni'n weithredol o ddydd i ddydd. Yn ogystal, ar gyfer 2023-2024, rydym wedi rhoi grŵp newydd arwaith, sef y **Grŵp Arweinyddiaeth Arolygu**, sy'n trafod materion yn ymwneud ag arolygu ac sy'n cael ei fynychu gan AEF, Cyfarwyddwyr Strategol a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol.

Mae ein **Bwrdd Strategaeth (y Bwrdd)**, sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol (cyfarwyddwyr anweithredol), yn pennu ac yn monitro ein hagenda strategol.  Caiff y Bwrdd Strategaeth ei gadeirio gan PAEF ac mae ganddo ddau is-bwyllgor, sy'n cael eu cadeirio gan aelodau anweithredol; y **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** a'r **Pwyllgor Cyflogau**. Gellir gweld cofnod llawn o aelodau a phresenoldeb y Bwrdd Strategaeth / Pwyllgorau ar ein gwefan.

**Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau**

Caiff datganiadau eu gwneud gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl ac arweiniad a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol arall a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

**Digwyddiadau'n ymwneud â data personol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth wedi monitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad a darparu goruchwyliaeth o gydymffurfio â pholisïau a phrosesau sicrwydd yn ein polisïau llywodraethu gwybodaeth.

## Polisi talu

Yn 2023-2024, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar gyfer Contractau Estyn. Talom 86% o anfonebau o fewn 30 diwrnod. Roedd y methiant i gyflawni ein targed yn bennaf oherwydd adnoddau staff llai o ganlyniad i absenoldeb salwch yn ystod 2023-2024.

Talwyd 86% o'r anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod (yn erbyn targed o 100%)



## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

PAEF yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Estyn. Mae PAEF wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF ac â'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu a amlinellwyd yn llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Paratoir y cyfrifon ar sail gyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ar ddiwedd y flwyddyn a'i ddatganiad o wariant net cynhwysfawr; datganiad o sefyllfa ariannol; llifoedd arian; a datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae PAEF wedi:

- cydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF
- cydymffurfio â'r gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd neu a eglurwyd yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian Estyn ac am gadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu gan Drysorlys EF.

Mae PAEF yn cadarnhau:

(a) hyd y gwyddai, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn gwybod amdani

(b) bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

(c) bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

(ch) ei fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 17 Medi 2024

# Y datganiad llywodraethu

## Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ein busnes. Mae gennym system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion *Corporate governance in central government departments: Code of Good Practice 2017* (Y Cod), eu hadlewyrchu yn ein trefniadau llywodraethu Estyn, yng nghyd-destun ein hamgylchiadau fel adran anweinidogol. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut rydym yn cynnal llywodraethu da ac yn esbonio'r prif heriau sy'n ein hwynebu, a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

## Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Trwy gydol 2023-2024, cynhaliom ein trefniadau llywodraethu llawn, a chafodd y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd eu cynnal yn rhithwir. Mae'r diagram ar ddiwedd y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i'n trefniadau llywodraethu. Mae ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

Amlinellir datganiad clir o ddiben a'n gweledigaeth ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu ein gweledigaeth gyffredinol ac yn nodi ein prif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am ein perfformiad a chyflawniad yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, hefyd. Roedd ein cynllun yn adlewyrchu ein gwaith i gwblhau'r cylch presennol o weithgarwch arolygu a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rhaglen arolygu newydd i ddechrau ym mis Medi 2024.

Caiff y gwaith goruchwylio ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Cefnogwyd aelodau trwy gydol y flwyddyn gyda mynediad i dechnolegau priodol, fel Microsoft Teams, i sicrhau y gellid cynnal busnes yn ddiogel ac yn effeithlon ar sail gweithio o bell. Parhaodd holl elfennau ein strwythur llywodraethu i weithio'n effeithiol.

Yn ystod 2023-2024, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth deirgwaith a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) bum gwaith; roedd pob un o'r aelodau yn bresennol mewn tri o'r pump cyfarfod ARAC; yn y ddau achos arall, nid oedd un aelod yn bresennol. Mae'r Bwrdd Strategaeth wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a chefnogi ein gweithrediaeth. Roedd rhai o'r meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2023-2024 yn cynnwys:

- adolygu heriau'r trefniadau arolygu newydd i'w rhoi ar waith yn 2024

- diweddariadau ar ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth i ymarferwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol
- cryfhau ein perthnasoedd â rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau o ran ein rôl atebolrwydd
- adolygu'r rhaglen dysgu a datblygu
- cyllideb a dyrannu adnoddau
- adolygu diweddariadau i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- adolygu datblygiad trefniadau newydd Medr (y cyfeiriwyd ato gynt fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn y sectorau ôl-16
- Adroddiad Blynyddol PAEF
- canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

Yn ogystal, yn ystod 2023-2024, trefnwyd cyfres o sesiynau briffio ar gyfer ein cyfarwyddwyr anweithredol, a oedd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- papur gwyn addysg Gymraeg
- deilliannau canlyniadau PISA a'r goblygiadau i Gymru
- rheoli risg
- anghenion dysgu ychwanegol
- ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys hyfforddiant allanol

Daw pob cyfarfod i ben â hunanwerthusiad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae ein cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2023-2024.

Rydym yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion rheolaeth ariannol. Caiff atebolrwydd ei reoli trwy Gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng PAEF a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig Llywodraeth Cymru, Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredol. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt hwn yn helpu i gynnal ein hannibyniaeth mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod cysylltiadau agos â Grŵp Addysg Llywodraeth Cymru a'r Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn parhau i gefnogi dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

### Archwilio ac effaith

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ei gyhoeddi ar ein gwefan; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith allweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2023-2024 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor; mae'r pwyllgor yn fodlon bod ein trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg yn briodol trwy gydol 2023-2024. Er mai dim ond sicrwydd rhesymol a ddyrannwyd yn gysylltiedig â'r archwiliad o reoli rhaglenni – adolygiadau thematig, roedd yr holl argymhellion yn ymwneud ag un agwedd ar ein gwaith – sef adolygiadau cyflym heb eu rhaglennu, a rhoddwyd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn gyflym a oedd yn golygu bod camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i ARAC. Yn ogystal, er bod cynnydd o ran rhoi'r camau gweithredu yn ymwneud â'r archwiliadau parhad busnes a chynllunio'r gweithlu ar waith yn arafach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, rhoddwyd sicrwydd i aelodau ARAC trwy adroddiadau diweddaru yn esbonio'r

rhyng-gysylltiadau rhwng yr argymhellion hynny o ran rhoi system gynllunio newydd ar waith, a rhoddwyd diweddariadau pellach ym mhob cyfarfod ARAC.

Ar hyd 2023-2024, darparwyd ein gwasanaeth archwilio mewnol gan TIAA. Cyflawnwyd y gwaith o bell a chydweithiom yn agos â staff archwilio i sicrhau na wnaeth hyn lesteirio effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir; mae elfennau o'r agweddau ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd 'o bell' wedi cynnig mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn ein trefniadau parhaus.

Cymeradwyodd ein ARAC y rhaglen archwilio ar gyfer 2023-2024 gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg i sefydlu meysydd ymdriniaeth o fewn rhaglen archwilio dreigl o dair blynedd a gytunwyd gyda TIAA. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac ar ddiwedd y flwyddyn, ystyriwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol. Cynghorodd yr adroddiad hwn am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i'w hystyried gan aelodau o'r ARAC. Llywiodd y canlyniad o'r ymdriniaeth archwilio mewnol farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol ein fframwaith rheolaeth fewnol; '*ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, mae gan Estyn brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith'*. O ganlyniad i waith a gwblhawyd gan ein harchwilwyr mewnol yn ystod 2023-2024, cafwyd adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Adolygwyd yr holl adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol a'r prif faterion sy'n codi a drafodwyd gan yr ARAC, a oedd yn fodlon bod yr holl gamau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

**Tabl 1**
**Rhaglen archwilio mewnol 2023-2024**

| Adroddiadau | Lefel sicrwydd | Nifer yr argymhellion (sgôr blaenoriaeth) |
|---|---|---|
| Fframwaith rheoli risg * | Rhesymol | 15 (4 pwysig, 7 arferol, 4 gweithredol) |
| Cynllunio a dyrannu'r gweithlu * | Cynghorol | 21 (2 frys, 6 pwysig, 2 arferol, 11 gweithredol) |
| Rheolaethau ariannol allweddol * | Sylweddol | 6 (3 arferol, 3 gweithredol) |
| Teithio a chynhaliaeth * | Sylweddol | 2 (1 arferol, 1 gweithredol) |
| Parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb * | Cyfyngedig | 13 (1 brys, 10 pwysig, 1 arferol, 1 gweithredol) |
| Recriwtio a hyfforddiant * | Sylweddol | 2 (1 arferol, 1 gweithredol) |
| Seiberddiogelwch * | Rhesymol | 4 (4 pwysig) |
| Monitro ac adrodd ar berfformiad * | Sylweddol | 1 (Gweithredol) |
| Adroddiadau Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol | Sylweddol | Dim argymhellion |
| Rheoli Absenoldebau | Sylweddol | 4 (3 arferol, 1 gweithredol) |
| Arolygu ar gyfer y Dyfodol | Sylweddol | 2 (Arferol) |
| Rheoli rhaglenni – adolygiadau thematig | Rhesymol | 6 (2 bwysig, 3 arferol, 1 gweithredol) |
| Rheolaethau ariannol allweddol | Rhesymol | 3 (1 pwysig, 2 arferol) |
| Lles staff | Wedi'i drefnu ar gyfer 2024-2025 | |

* Gwaith archwilio a wnaed yn 2022-2023 ac yr adroddwyd amdano yn 2023-2024

Cyfarfu ein Pwyllgor Cyflogau unwaith yn ystod 2023-2024 ac ystyriodd yr adolygiad o berfformiad PAEF a'r Cyfarwyddwyr Strategol a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor gyngor i PAEF hefyd ynglŷn â lefelau tâl a lwfansau ar gyfer ein staff.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi sicrhau cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Nodiadau Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet a llythyrau Cymru Annwyl Swyddog Cyfrifyddu (ASC). Rhoddodd ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Arolygu a Gwasanaethau Canolog sicrwydd i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a oedd yn adrodd ar yr uchod ac yn darparu sicrwydd ar feysydd perthnasol eraill, fel caffael, bodloni rhwymedigaethau treth, cydymffurfio ag egwyddorion recriwtio'r gwasanaeth sifil a chydymffurfio â threfn adrodd Swyddfa'r Cabinet. Yn ystod 2023-2024, lluniom un cytundeb peidio â datgelu â chyflogai yn ymwneud ag ymadawiad y cytunwyd arno gan y ddwy ochr.

Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ond yn cynnal ein statws fel corff annibynnol. Felly, fel adran anweinidogol, nid ydym yn destun Cyfarwyddiadau gan Weinidogion.

Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau gwaith. Mae Cofrestr Buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

Cwmpaswyd y meysydd sicrwydd uchod yn y datganiad sicrwydd rheolaidd a gyflwynwyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â diweddariadau ar dwyll, diogelwch gwybodaeth, olrhain yn erbyn dangosyddion perfformiad, a materion ariannol sy'n effeithio ar y cyfrifon blynyddol.

### Rheoli risg

Roedd ein polisi rheoli risg yn destun archwiliad mewnol yn 2022-2023. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad llawn o'n trefniadau polisi yn ystod hanner cyntaf 2023-2024 a chyhoeddwyd y polisi diwygiedig ym mis Tachwedd 2023. Mae'r polisi diwygiedig wedi symleiddio ein hymagwedd at reoli risg. Symudom oddi wrth ein cofrestrau risg corfforaethol / gweithredol blaenorol trwy adolygu pob risg a naill ai eu hailbennu i weithgorau i'w rheoli, eu dileu os gwerthuswyd nad oeddent yn berthnasol i'r sefydliad bellach neu eu hychwanegu at y cofrestrau risg strategol a chorfforaethol newydd, symlach. Caiff y gofrestr risg strategol ei hadolygu'n rheolaidd gan ein Grŵp Rheoli Strategol (a'i hadolygu ymhellach gan y Bwrdd Strategaeth). Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei hadolygu gan y Grŵp Gweithredol/Grŵp Arwain Arolygiadau. Mae gan bob risg berchennog unigol. Mae perchenogion risg yn rhoi sicrwydd a thystiolaeth bod rheolaethau allweddol ar waith i reoli risgiau a'u bod yn gweithio'n effeithiol. Mae risgiau swyddogaethol y Gwasanaethau Canolog yn parhau i gael eu rheoli'n uniongyrchol ym mhob maes, gyda phob maes yn cael ei reoli gan fforymau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys cyfarwyddiadau desg a gweithdrefnau gweithredol/cynllunio wrth gefn. Parhaom i sicrhau bod mesurau ategol ar waith i reoli risgiau posibl gweithio o bell. Er enghraifft, roedd lles staff yn uchel ar ein hagenda o hyd ac roedd yn ffocws trafodaethau rheolaidd yn gorfforaethol ac mewn cyfarfodydd tîm ac un-i-un.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2023-2024 a gwblhawyd gan bob un o'n cyfarwyddwyr yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau

wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2023-2024. Hefyd, lle bo'n briodol, ceisiom a chawsom sicrwyddau a dderbyniwyd yn allanol, er enghraifft gan Lywodraeth Cymru o ran y gwasanaethau cyflogres ac adnoddau dynol y mae'n eu darparu i ni o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.

### Rheoli ein cyllideb i gyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol

Ailadeiladir ar ein blaenoriaethau tair blynedd yn ein Cynllun Blynyddol bob blwyddyn, ac fe gânt eu mireinio'n rheolaidd yn sgil datblygiadau. Rydym yn derbyn cyllideb ddangosol am dair blynedd, a fydd yn caniatáu ar gyfer cynllunio adnoddau yn y tymor hir.

Mae ein byrddau uwch reolwyr yn adolygu ymagweddau at senarios cyllideb sy'n dod i'r amlwg, yn asesu opsiynau ac yn gwerthuso effaith cyn deialog gyda Llywodraeth Cymru.

### Sicrhau bod gennym y bobl i gyflawni ein cynllun

Mae cynllunio gwaith manwl yn llywio gofynion adnoddau arolygu yn y dyfodol.

Defnyddir modelau adnoddau hyblyg, gan gynnwys Arolygwyr Ychwanegol dan gontract.

### Sicrhau ansawdd ein gwaith

Rydym yn defnyddio arolygwyr profiadol i fonitro cyfran o arolygiadau, yn ogystal â sicrhau ansawdd a phrawfddarllen pob adroddiad arolygu a gyhoeddir.

Mae ein rhaglen archwilio mewnol yn canolbwyntio ar feysydd risg allweddol ac yn rhoi sicrwydd yn erbyn prosesau a systemau allweddol.

### Uchafu ein heffaith ar lunio polisi

Mae gan ein cyfarwyddwyr gysylltiadau cryf ag unigolion cyswllt perthnasol yn adrannau Llywodraeth Cymru, ac yn cyfarfod â nhw, fel y bo'n briodol. Mae trafodaethau'n canolbwyntio ar faterion fel newidiadau arfaethedig i addysg a deddfwriaeth, a nodi cyfleoedd i ni lywio polisi.

Mae cysylltiadau â Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi LlC, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Cymwysterau Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn sicrhau ein bod yn gweld adolygiadau a chyhoeddiadau a gomisiynwyd.

### Cynnal parch y cyhoedd a pharch proffesiynol at Estyn

Dysgwyr sydd wrth wraidd ein holl waith. Mae pob rhan o'n gwaith yn bwydo i mewn i welliant mewn addysg a hyfforddiant, ac rydym wedi ymrwymo i wneud popeth a wnawn yn brofiad cadarnhaol i bawb sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

Rydym yn cadw sianelau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid yn agored, fel Llywodraeth Cymru, llunwyr polisi a darparwyr.


Mae gennym strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr, gweithwyr addysg proffesiynol a'r cyhoedd yn ymwybodol o'n gwaith a'n cyhoeddiadau. Rydym yn addasu ffocws a dulliau cyfathrebu yn unol ag amgylchiadau ar y pryd, ac ar hyn o bryd, maent yn canolbwyntio ar ein rôl i gael addysg a hyfforddiant yn ôl i normal newydd.

### Materion llywodraethu arwyddocaol

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn o ran ein fframwaith llywodraethu cyffredinol. Cwmpasodd yr adolygiadau archwilio mewnol feysydd allweddol o'n busnes, a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth; rydym yn ymdrin â phob argymhelliad lefel uchel a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rwyf wedi cael fy sicrhau gan y prosesau sydd ar waith a'r ymgysylltiad a'r ymrwymiad i'n gwerthoedd a chod y gwasanaeth sifil a ddangoswyd gan gydweithwyr.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 17 Medi 2024


Trefniadau fframwaith sicrwydd a chraffu Estyn
Craffwyr Allanol
Cwestiynau Gweinidogion LlC
Sesiynau Llawn Senedd CCC
Pwyllgorau CCC
Materion/Pryderon a godir gan ACau/ASau
Cyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phenaethiaid Arolygiaethau
Rhaglen Arolygu Cymru
Rhaglen Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Estyn
Fframwaith Rheoli Estyn
Amcanion strategol a gweithredoedd ategol (cyhoeddwyd yn y Cynllun Blynyddol)
Prosesau Cynllunio Busnes Strategol a Rhaglennu Gwaith
System Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Gweithdrefnau pennu cyllideb a rheoli cyllideb (Llawlyfr Cyllid)
Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (e.e. Adroddiad Blynyddol)
Rheoli Risg
Polisi Gwrth-dwyll
Fframwaith Llywodraethu
Cytundebau partneriaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth
Polisïau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad (yn gyson â modelau'r Gwasanaeth Sifil)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Swyddog Cyfrifyddu a Byrddau Gweithredol/ Strategol
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Adolygu a monitro effeithiolrwydd Llywodraethu, Rheoli Risg ac adolygu'n fewnol a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Arweiniad Canolog
Arweiniad Trysorlys EM
DAOau Llywodraeth Cymru
Cod Llywodraethu Corfforaethol
Rheoli Arian Cyhoeddus (Cymru)
Arweiniad Rheoli Risg y Llywodraeth
Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
Polisïau, cynlluniau gweithredol a chofrestrau risg Estyn
Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am arweinyddiaeth gorfforaethol a chyflawni gweithgareddau gweithredol. Mae'n cynnal y fframwaith sicrwydd ac yn darparu tystiolaeth ategol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Elfennau'r Map Sicrwydd
Llinell amddiffyn 1af
Datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
Sicrwydd cyflawni gweithredol, e.e. Diweddariadau Misol i Grwpiau
Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Adrodd ar DP/ Gwybodaeth Reoli, yn cynnwys Holiaduron Cyn-arolygiad, Adborth a Chwynion
2il linell amddiffyn
Trosolwg y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategol
Adolygiadau o'r cofrestrau risgiau
Sicrwydd rheolaeth ariannol (adroddiadau IRIS)
Grŵp Polisi Arolygu a Chydymffurfio
Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd)
Sicrwydd (bwrdd) Prosiect AR
Sicrwydd diogelwch gwybodaeth (adolygiadau cydymffurfio Grŵp IG)
Adolygiadau o gofnodion gweithredu (ac adrodd drwy SharePoint)
Sicrwyddau 3ydd Parti (trefniadau contractiol)
3edd llinell amddiffyn
Archwilwyr mewnol (adroddiadau)
Archwilwyr Mewnol (hapwiriadau)
Adolygiadau allanol, e.e. gwiriadau cydymffurfio CSC
Achrediadau, e.e. Safon Iechyd Corfforaethol, BmP, y Ddraig Werdd, ISO
Sicrwyddau eraill
Archwilwyr Allanol
Gwaith partneriaeth a meincnodi (Arolygiaethau'r DU a SICI)

## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad o ran sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol


Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.


Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran cymhwysedd
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol

Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2023-2024.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2024), dyfarnwyd codiad cyflog o 2% i swyddogion Band 1 Uwch Wasanaeth Sifil Estyn.


Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ôl categori staff yn 2021-2022, 2022-2023 a 2023-2024
Nifer y staff
70
60
50
40
30
20
10
0
54.45
58.378
57.12
60.88
64.67
68.43
2021-2022
2022-2023
2023-2024
Categori Staff
Rheolwyr a'r Gwasanaethau Canolog
Arolygu


Nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gyfer 2023-2024
Gradd Staff
Uwch Wasanaeth Sifil
1.00
2.00
Gradd 6 Rheoli
4.00
4.00
Gradd 6
33.93
28.95
Secondeion
2.77
2.79
Gradd 7
1.00
2.72
SEO
0.00
3.78
HEO
1.00
3.83
EO
7.57
16.85
AO
4.00
9.68
Staff dros dro
0.74
2.51
0.00
5.00
10.00
15.00
20.00
25.00
30.00
35.00
40.00
Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn
Gwrywaidd
Benywaidd

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

| Tâl (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau )[3] | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-2024 | | | | | 2022-2023 | | | | |
| **Swyddogion**[4] | **Cyflog £000oedd** | **Tâl Perfformiad ar Wahân £000oedd** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf**[5] | **Cyfanswm £000oedd** | **Cyflog £000oedd** | **Tâl Perfformiad ar Wahân £000oedd** | **Tâl Perfformiad ar Wahân £000oedd )** | **Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf** | **Cyfanswm £000oedd** |
| Owen Evans OBE, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | **150-155** | **-** | **-** | **59** | **205-210** | **140-145** | - | - | 55 | **195-200** |
| Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol | **95-100** | | | **38** | **130-135** | **90-95** | - | - | 35 | **125-130** |
| Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol | **95-100** | | | **59** | **155-160** | **90-95** | - | - | 7 | **95-100** |
| Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Arolygu a Gwasanaethau Canolog | **90-95** | **-** | **-** | **41** | **130-135** | **85-90** | - | - | 17 | **95-100** |
| Dr Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Anweithredol | **5-10** | **-** | **-** | **-** | **5-10** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0 - 5** |
| Yr Athro Charlotte Williams OBE FRS, Cyfarwyddwr Anweithredol | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |
| Yr Athro Brett Pugh, Cyfarwyddwr Anweithredol | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |
| David Jones OBE, Cyfarwyddwr Anweithredol | **5-10** | **-** | **-** | **-** | **5-10** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |
| Maria Rimmer, Cyfarwyddwr Anweithredol | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** | **0-5** | **-** | **-** | **-** | **0-5** |

[3] Archwiliwyd

[4] Cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob swydd Swyddogol yn y tabl isod

[5] Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)

| Hawliau pensiwn i uwch reolwyr[6] | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/24 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000oedd** | **Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd** | **Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/24 £000oedd** | **Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/23 £000oedd** | **Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd** | **Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth i'r £100 agosaf** |
| Owen Evans<br>Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 50 – 55 a chyfandaliad o 0 | 2.5 – 5 a chyfandaliad o 0 | 801 | 667 | 42 | - |
| Claire Morgan<br>Cyfarwyddwr Strategol | 35 – 40 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 665 | 565 | 30 | - |
| Jassa Scott<br>Cyfarwyddwr Strategol | 35 – 40 a chyfandaliad o 0 | 2.5 – 5 a chyfandaliad o 0 | 701 | 600 | 43 | - |
| Mererid Wyn Williams<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog | 25 – 30 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 541 | 467 | 28 | - |

[6] Archwiliwyd

**Datgeliadau Cyflog Teg[7]**
**Perthynas tâl**

| | 2023-2024 £000oedd Prif Arolygydd | 2023-2024 £000oedd Cyflogai | 2023-2024 £000oedd Cymhareb | 2022-2023 £000oedd Prif Arolygydd | 2022-2023 £000oedd Cyflogai | 2023-2024 £000oedd Cymhareb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm tâl a buddion** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 153 | 32 | 4.78 | 143 | 31 | 4.61 |
| Tâl canolrifol | 153 | 77 | 1.99 | 143 | 73 | 1.96 |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 153 | 82 | 1.86 | 143 | 79 | 1.81 |
| **Elfen gyflog y cyfanswm tâl** | | | | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd | 153 | 32 | | 143 | 31 | |
| Tâl canolrifol | 153 | 77 | | 143 | 73 | |
| Cymhareb cyflog 75ain canradd | 153 | 82 | | 143 | 79 | |

| **Newidiadau canrannol** | **2022-2023 i 2023-2024** | **2021-2022 i 2022-2023** |
|---|---|---|
| **% Newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran y Prif Arolygydd** | | |
| Cyflog a lwfansau | 7.02% | 3.64% |
| Tâl perfformiad a bonysau | 0.00% | 0.00% |
| **Newid % cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflogeion yn eu cyfanrwydd** | | |
| Cyflog a lwfansau | 1.79% | 2.98% |
| Tâl perfformiad a bonysau | 0.00% | 0.00% |

[7] Archwiliwyd

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus a wnaed gan Estyn ac felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae PCSPS yn cynnwys pedair rhan: 3 sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022.

Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd o ran y modd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, disgwylir, maes o law, y bydd gan aelodau cymwys â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod).

Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog

pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion **premium**, yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae **Classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â **classic** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun.

Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cronni mewn modd tebyg i **nuvos**, ac eithrio mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** sy'n rhan o'r *Legal & General Mastertrust*. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic, premium** a **classic plus** yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu **alpha** – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn

gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Iawndal am golli swydd

**Pecyn ymadael: Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm[8] y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | - | - |
| **£25,000 - £50,000** | - | - | - |
| **£50,000 - £100,000** | - | 1 | 1 |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | - | 1[9] | 1 |
| **Cyfanswm cost adnoddau/£000** | - | **£50,000 - £100,000** | **£50,000 - £100,000** |

[8] Archwiliwyd
[9] Costau dileu swydd a gronnwyd yn 2023-2024, a dalwyd yn 2024-2025

| Manylion | 2023-2024 £'000oedd | 2022-2023 £'000oedd |
|---|---|---|
| Costau ymadael a dalwyd yn y flwyddyn ymadael | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** |

**Datgeliad cyflog teg**

Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng y Cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf yn Estyn a thâl cyfartalog y gweithlu. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys yr eitemau y manylir arnynt yn y paragraff 'Cyflog' uchod. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, taliadau diswyddo neu CETV pensiynau. Mae'r cynnydd yn y cyflog cyfartalog ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys codiad cyflog o 5%.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

17 Medi 2024

## Adroddiad staff

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall [1] | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| **2022-2023** | 111.22 | 6.78 | 118 |
| **2023-2024** | 124.36 | 8.75 | 133.1 |

Mae cyfraddau salwch staff fel a ganlyn:

| **Prif fesurau staff** | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **2022-2023** | **2023-2024** |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 4.4% | 2.9% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 56.4% | 35.3% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 9.7 | 6.2 |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 8.9 | 8.4 |
| Achlysuron absenoldeb salwch (newydd) | 79 | 92 |
| Achlysuron absenoldeb salwch (newydd) | 75% | 67% |
| Mae iechyd meddwl yn cyfrif am 37% o'r holl absenoldebau salwch, wedi'i ddilyn gan faterion Cyhyrysgerbydol a meinwe gyswllt, sy'n cyfrif am 29% o'r holl absenoldebau salwch yn 2023-24. | | |

Nodir trosiant staff ar dudalen 29 uchod.

I gael gwybodaeth am ein dull o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein harferion recriwtio a chadw, gweler tudalen 26 uchod.

Cyfanswm cyfradd salwch o 2.9% yn erbyn targed o <4%



[1] Mae staff arall yn cyfeirio at secondeion a staff asiantaeth.

## 2.3 Adroddiad archwilio

# Yr Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu ariannol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg am gyflwr materion Estyn ar 31 Mawrth 2024 ac am ei wariant net a'i ddefnydd o adnoddau, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a gwariant yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran y datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod tystiolaeth yr archwiliad rwyf wedi'i chael yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwyddau perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu'n gyfunol, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Caiff sail gyfrifyddu busnes gweithredol Estyn ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a bennir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddo'n parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir, a'm hadroddiad fel archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw am y graddau a nodir yn eglur yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad am sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'u cham-ddatgan yn berthnasol. Os nodaf unrhyw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu p'un a yw hyn yn peri cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar y gwaith a gyflawnais, bod cam-ddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a Staff sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn Rhagair y Prif Arolygydd, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Rhagair y Prif Arolygydd, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol i'm harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- na wnaed datgeliadau penodol o gyflogau a nodwyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth EF neu os nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gyflogau a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth ag arweiniad Trysorlys EF.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

**Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:**

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol / digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol o'r fath y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn pennu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Estyn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Estyn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd oddi wrth gamddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn unigol neu gyda'i gilydd yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Estyn sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll o ran rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Estyn yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Estyn yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith hanfodol ar weithrediadau Estyn;
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, mae fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Strategaeth; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r

barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Estyn, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sydd, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â chwmpas ac amseriad cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.


## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | 1 Cwr y Ddinas |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Stryd Tyndall |
| 19 Medi 2024 | Caerdydd |

# ADRAN 3

# DATGANIADAU ARIANNOL



## 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

| | | **2023-2024** | | | **2022-2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | **Cyllideb £'000oedd** | **Alldro £'000oedd** | **Amrywiant £'000oedd** | **Alldro £'000oedd** |
| **Adnoddau** | | | | | |
| Costau staff | 2 | 12,100 | 12,110 | 10 | 10,131 |
| Dibrisiant | 5a a b | 200 | 234 | 34 | 195 |
| Tâl yr Archwilydd | 3 | 31 | 31 | - | 29 |
| Gwariant arall | 3 | 3,392 | 3,297 | -95 | 2,748 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | | **15,723** | **15,672** | **-51** | **13,103** |
| **Incwm Amrywiol** | 3 | **-** | **-6** | **-6** | **-3** |
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn** | | **15,723** | **15,666** | **-57** | **13,100** |

Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â'r https://www.estyn.gov.wales/document/annual-plan-2022-2023Cynllun Blynyddol 2023-2024.

Datgenir ffigurau'r gyllideb fel yng Nghynllun Blynyddol Estyn 2023-2024.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 79 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

| | Nodyn | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000oedd | £'000oedd | £'000oedd | £'000oedd |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 5a | 287 | | 238 | |
| Asedau anniriaethol | 5b | 123 | | 124 | |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 5a | 191 | | 269 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **601** | | **631** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill derbyniadwy | 7 | 188 | | 190 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 8 | 633 | | 1,461 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **821** | | **1,651** |
| **Cyfanswm asedau** | | | **1,422** | | **2,282** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 9 | -2,340 | | -2,059 | |
| Rhwymedigaethau prydles | 11 | -78 | | -78 | |
| Cyfraniad a gafwyd ymlaen llaw[10] | | - | | -11 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **-2,418** | | **-2,148** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **-996** | | **134** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | 10 | -55 | | -45 | |
| Rhwymedigaethau prydles | 11 | -119 | | -193 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **-174** | | **-238** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **-1,170** | | **-104** |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **-1,170** | | **-104** |

[10] Cyfraniad at gyllid costau a dderbyniwyd yn 2022-2023 ar gyfer gwaith 2023-2024.

## 3.3 Llif Arian 2023-2024

| | | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| **Cost gweithredu net** | | **-15,666** | **-13,100** |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiant | 5a a b | 234 | 195 |
| Costau eraill - darpariaethau | 10 | 10 | - |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 | 281 | 1,054 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy arall | 7 | 2 | 47 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn cyfraniadau a gafwyd ymlaen llaw | | -11 | 11 |
| Elfen llog ar daliadau rhwymedigaethau prydles | 11 | 3 | 3 |
| **Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:** | | | |
| Credydwyr cyfalaf | | - | -15 |
| Cyllid grant | | - | 120 |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | -15,147 | -11,685 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 5a | -161 | -187 |
| Prynu asedau anniriaethol | 5b | -44 | - |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **-205** | **-187** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Gweithgareddau ariannu – prydles | 11 | -76 | -78 |
| **Cyllid net gan Lywodraeth Cymru** | | **14,600** | **12,489** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | **-828** | **539** |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 8 | 1,461 | 922 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 8 | 633 | 1,461 |

## 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

| | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **-104** |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2023-2024 | 15,666 | |
| Cyllid Net Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024 | 14,600 | |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | | -1,066 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **-1,170** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 79 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Owen Evans**
Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

17 Medi, 2024

## 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2023-2024 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2023-2024 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EF a Llywodraeth Cymru, cytunom ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012 sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg. Caiff gwariant ar wasanaethau, trwyddedau a thanysgrifiadau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol eu trin fel costau o fewn y flwyddyn ariannol y gwneir y taliad ynddi, lle nad yw'r trafodiad unigol yn fwy na £1,000.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). O ystyried na ddelir unrhyw eiddo, ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg. Lle mae gwerth asedau a brynir ar yr un pryd o'r un fath yn union, e.e. gliniaduron, byddant yn cael eu cyfalafu os yw cyfanswm y gwerth dros £10,000.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn 2022-2023, newidiom o godi am ddibrisiant yn flynyddol i godi amdano'n fisol – caiff dibrisiant ei godi o'r mis y caiff yr ased ei gaffael. Nid yw'r effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a'r gwerth Asedau Sefydlog yn berthnasol. Mae oes asedau fel a ganlyn o hyd:

- Offer TG 3-5 mlynedd
- Dodrefn a Gosodiadau 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd
- Systemau TG 5 mlynedd
- Asedau Anniriaethol 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

## 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor, o fewn blwyddyn a thymor canolig, rhwng dwy a phum mlynedd. Mae'r holl ddarpariaethau yn destun adolygiad blynyddol, i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol a digonol i ariannu'r atebolrwydd penodol yn y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol i adfer yr eiddo yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol cyn y denantiaeth. Mae hwn yn ofyniad yn y cytundeb les a gweithredir y cymal pan fyddwn yn gadael swyddfa Caerdydd.

## 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn.

Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

## 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 3 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

## 1.7 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

## 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae’n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy’n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo’r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.10 Asedau hawl i ddefnyddio

Nid oes gan Estyn brydles gweithredu mwyach, ar ôl gweithredu ased hawl i ddefnyddio a chaiff rhwymedigaeth prydles ei chydnabod ar y dyddiad dechrau. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur ar gost i ddechrau, sy’n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles wedi’i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion. Wedi hynny, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur naill ai ar werth teg neu werth cyfredol mewn defnydd presennol yn unol ag asedau eiddo, cyfarpar ac offer.

Caiff y model mesur costau yn IFRS 16 ei ddefnyddio fel procsi priodol ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol o werth teg. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio gan ddefnyddio’r dull llinell syth o’r dyddiad dechrau hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Caiff oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau’r hawl i ddefnyddio ei phennu ar yr un sail â rhai asedau eiddo, cyfarpar ac offer. Caiff IAS 36 Amhariad ar Asedau ei ddefnyddio i bennu a oes amhariad ar yr ased hawl i ddefnyddio ac i roi cyfrif am unrhyw golled amhariad a nodir.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o’i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2024-2025. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail ‘busnes gweithredol’ ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol hyn.

### 1.13 Gwyliau Cronedig

Cyfrifir am groniad gwyliau blynyddol staff yn Nhabl 2 – Costau staff. Mae’r croniad yn gyfrifiad i adlewyrchu’r gwyliau blynyddol net a oedd yn ddyledus neu sy’n ddyledus i staff ar ddiwedd y flwyddyn. Mae symudiad yn y flwyddyn bellach yn cael ei godi fel croniad o fewn cyflogau.

## 2 Costau staff

| Disgrifiad | Cyfanswm 2023-2024 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Asiantaeth a secondeion | 2022-2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | 8,089 | 8,089 | - | 6,985 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 938 | 938 | - | 823 |
| **Costau pensiwn** | 2,299 | 2,299 | - | 1,928 |
| **Cyfanswm costau net** | **11,326** | **11,326** | **-** | **9,646** |
| **Ynghyd â:** | | | | |
| **Secondeion i mewn** | 493 | - | 493 | 291 |
| **Staff asiantaeth** | 167 | - | 167 | 154 |
| **Costau Cyfarwyddwyr Anweithredol** | 28 | - | 28 | 23 |
| **Ardoll Brentisiaethau** | 28 | **-** | 28 | 17 |
| **Ymadawiad cynnar** | 68 | | 68 | - |
| **Cyfanswm costau staff** | **12,110** | **11,326** | **784** | **10,131** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio PCSPS ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2023-2024, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £2.299m yn daladwy i PCSPS (2022-2023 £1.928m) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2023-2024 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

## 3 Costau eraill

| **Costau Eraill 2023-2024** | **2023-2024 £000oedd** | **2022-2023 £000oedd** |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu - Adeiladau | 18 | 21 |
| Costau adeiladau eraill | 142 | 111 |
| TG a thelathrebu | 754 | 698 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 697 | 662 |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | 26 | 19 |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | 31 | 29 |
| Costau gweinyddol cyffredinol | 503 | 318 |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| Newid yn y ddarpariaeth ar gyfer costau ailgyfarparu adeiladau | 10 | 0 |
| Costau llog rhwymedigaethau prydlesi | 3 | 3 |
| Dibrisiant prydlesi (ased hawl i ddefnyddio) | 78 | 78 |
| - Dibrisiant asedau diriaethol | 112 | 76 |
| - Dibrisiant asedau anniriaethol | 44 | 41 |
| **Isgyfanswm** | **2,418** | **2,056** |
| **Incwm Gweithredu** | - 6 | -3 |
| **Isgyfanswm costau gweinyddol net** | **2,412** | **2,053** |
| **Costau eraill** | | |
| **Arolygiadau Awdurdodau Addysg Lleol a chostau cysylltiedig** | | 0 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | 845 | 798 |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | 299 | 118 |
| Costau'r cylch gwaith | - | - |
| **Isgyfanswm: rhaglenni** | **1,144** | **916** |
| **Cyfanswm y costau eraill** | **3,555** | **2,969** |
| **Heb Ddibrisiant** | **3,321** | **2,774** |
| **heb incwm a dibrisiant** | **3,328** | **2,777** |

## 4 Incwm Amrywiol 2023-2024

| | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Incwm:** | | |
| Ffioedd cofrestru | -2 | -2 |
| Amrywiol | -4 | -1 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **-6** | **-3** |

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn gymharol fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

## 5a Asedau Sefydlog

| | Offer TG | Dodrefn a Gosodiadau | Offer swyddfa | Ased hawl i ddefnyddio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 956 | 134 | 3 | 347 | 1,440 |
| Ychwanegiadau | 104 | 57 | - | - | 161 |
| Gwarediadau | -31 | - | - | - | -31 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **1,029** | **191** | **3** | **347** | **1,570** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 721 | 131 | 3 | 78 | 933 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 111 | 1 | - | 78 | 190 |
| Gwarediadau | -31 | - | - | - | -31 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **801** | **132** | **3** | **156** | **1,092** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **228** | **59** | **-** | **191** | **478** |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 235 | 5 | - | 269 | 507 |
| **Cyllid Asedau:** | | | | | |
| **Dan berchenogaeth** | 228 | 59 | - | - | 287 |
| **Dan brydles** | - | - | - | 191 | 191 |

## 5b Asedau Anniriaethol

| | Meddalwedd | Deunydd hyfforddiant | Systemau TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 11 | - | 402 | 413 |
| Ychwanegiadau | - | 3 | 41 | 44 |
| Gwarediadau | - | | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 11 | 3 | 443 | 457 |
| | | | | - |
| **Dibrisiant** | | | | - |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 11 | - | 278 | 289 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 1 | 44 | 45 |
| Gwarediadau | - | | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | 11 | 1 | 322 | 334 |
| | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | - | 2 | 121 | 123 |
| | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | - | | 124 | 124 |

## 6 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

**Risg hylifedd**

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg o ran cyfradd llog ac arian tramor**

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

**Risg credyd**

Caiff Estyn ei ariannu, dan ddeddfwriaeth, gan Lywodraeth Cymru ac felly nid yw agored i risgiau credyd perthnasol.

## 7 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2023-2024 £000oedd | 2022-2023 £000oedd |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | - | - |
| Symiau derbyniadwy eraill | 20 | 93 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 168 | 97 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **188** | **190** |

## 8 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2023 | 1,461 | 922 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | -828 | 539 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | 633 | 1,461 |

## 9 Symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023[11] |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy masnach | 575 | 1,018 |
| Cyllid y gyflogres | 1,765 | 1,041 |
| **Cyfanswm** | **2,340** | **2,059** |

[11] Mae ffigur 2022-2023 wedi'i ailddatgan i adlewyrchu croniad gwyliau blynyddol (£470,000) wedi'i gynnwys yng Nghyllid y gyflogres yn hytrach na Symiau taladwy masnach yn 2022-2023 a 2023-2024.

## 10 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles.

| Darpariaethau | Darpariaeth adfeiliad £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | | |
| O fewn blwyddyn | | |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 45 | 45 |
| Cynnydd/gostyngiad yn y ddarpariaeth | 10 | 10 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| **Darpariaeth sy'n weddill** | **55** | **55** |
| O fewn blwyddyn | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 55 | 55 |
| **Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2024** | **55** | **55** |

## 11 Prydlesi asedau hawl i ddefnyddio

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn ymwneud ag adeiladau ar brydles nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o adeiladau buddsoddi a chânt eu cyflwyno yn Nodyn 5a – Eiddo, Cyfarpar ac Offer. Un brydles yn unig sydd gan Estyn, sef swyddfa Llys Angor. Mae'r brydles yn cynnwys cymal terfynu ar ddiwedd blwyddyn 2, sef Tachwedd 2023, na chafodd ei gyflawni, a blwyddyn 3, sef Tachwedd 2024. Mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gyflawni, ond mae amseriad defnydd y ddarpariaeth, yn y tabl uchod, yn adlewyrchu'r posibilrwydd hwn.

Mae asedau hawl i ddefnyddio wedi'u mesur yn ôl gwerth presennol rhwymedigaeth y brydles, wedi'i ddisgowntio ar y gyfradd fenthyca gynyddrannol sy'n cael ei hyrwyddo ym mhapurau Trysorlys PES. Caiff y model costau ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol y defnydd presennol mewn blynyddoedd dilynol.

| | Rhwymedigaethau prydles<br>£'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 272 |
| Ychwanegiadau yn y flwyddyn | - |
| Taliad prydles | (78) |
| Tâl llog | 3 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **197** |
| Rhwymedigaethau prydles cyfredol | 78 |
| Rhwymedigaethau prydles anghyfredol | 119 |
| | 197 |

## 12 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2024 (nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2023).

## 13 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2024.

## 14 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2024. Roedd rhwymedigaethau digwyddiadau o £100,000 ar 31 Mawrth 2023.

## 15 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti sy'n gysylltiedig ag Estyn. Dyma drafodion perthnasol â Llywodraeth Cymru yn ystod 2023-2024:

- Cyllid o £14.6m gan Lywodraeth Cymru (£12.489m 2022-2023)
- Talom £11.170m i Lywodraeth Cymru, yn bennaf i ad-dalu cyflogau staff a didyniadau cyfatebol y maent yn eu talu ar ein rhan (£8.806m yn 2022-2023)
- Roedd gennym £978,000 o groniadau gyda Llywodraeth Cymru (£823,000 2022-2023) ac nid oedd unrhyw ddyledwyr (£31,000 2022-2023).

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 16 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

## Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AC | Arolygydd Cofnodol |
| ACALl | Arolygydd Cyswllt Awdurdodau Lleol |
| ACof | Arolygydd Cofrestredig |
| ACofM | Arolygydd Cofrestredig Meithrin |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AEF | Arolygydd Ei Fawrhydi |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AHO | Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol |
| ALNET | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg |
| ARAC | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| ASC | Llythyrau Cymru Annwyl Swyddog Cyfrifyddu |
| BSL | Iaith Arwyddo Prydain |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CCS | Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| CGOA | Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad |
| CSOPS | Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill |
| CYPE | Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| DPP | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| FDA | Cymdeithas Gweision Sifil Adran Gyntaf |
| FOIA | Deddf Rhyddid Gwybodaeth |
| FReM | Y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol |
| GALlL | Gwasanaethau addysg llywodraeth leol |
| GBS | System Bancio'r Llywodraeth |
| HAGA | Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon |
| HMICRFS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| ISAs(UK) | Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig |
| JICPA | Adolygiad ar y cyd gan arolygiaethau o drefniadau amddiffyn plant |
| NED | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| PAEF | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCS | Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| SCS | Uwch Wasanaeth Sifil |
| SICI | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau |
| SofFP | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol |
| TAW | Treth ar Werth |
| TGAU | Tystysgrif Genedlaethol Addysg Uwchradd |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |
| UP | Egwyddorion Sylfaenol |